

Y Dinesydd

Hydref 2010 Rhif 351

Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch

Pris: 80 ceiniog

Trydydd Tro Treganna

Ar 21 Medi fe gyflwynodd Cyngor Caerdydd gynllun i ddatrys problemau diffyg lle yn Ysgol Treganna – am y trydydd tro! Y bwriad y tro hwn yw codi adeilad newydd ar gyfer plant Ysgol Treganna ac Ysgol Tan-yr-Eos ar safle sy'n berchen i'r Cyngor ger Heol Sanatoriwm. Amcangyfrifir y bydd yr adeilad yn costio tua £9m, a bydd y Cyngor yn dibynnu ar gyfraniad gan Lywodraeth y Cynulliad i wireddu'r cynllun.

Dywedodd y Cynghorydd Freda Salway, Aelod Gweithredol dros Ysgolion a Dysgu Gydol Oes, 'Bydd yr ysgol arfaethedig yn derbyn tri dosbarth y flwyddyn a meithrinfa, gan gynnig cyfleusterau modern ardderchog wedi'u hanelu at ymateb i'r galw arfaethedig am addysg cyfrwng Cymraeg'. Meddai Arweinydd y Cyngor, Rodney Berman, 'Mae hon yn flaenoriaeth bennaf i ni. Mae buddiannau'r plant yn hollbwysig yn hyn i gyd ac rydw i wedi bod yn cydymdeimlo â rhieni Treganna sydd wedi wynebu cymaint o ansicrwydd cyhyd'.



Coridor fel neuadd ginio

Wrth ymateb i'r datganiad, dywedodd Nia Williams, ar ran Grwp Ymgyrchu Treganna a Than-yr-Eos, 'Fel rhieni rydym yn falch fod Cyngor Caerdydd wedi gwneud y cyhoeddiad ei fod yn mynd i adeiladu ysgol newydd – i agor yn 2013 – er mwyn boddau'r galw cynyddol am addysg Gymraeg yn Nhreganna. Fodd bynnag, rydym wedi

Cwmni Theatr y Crwys



gweld cynlluniau ad-drefnu ddwywaith o'r blaen ac wedi gweld y gobeithion hynny yn cael eu chwalu. Gobeithiwn y bydd y Prif Weinidog yn cadw at yr addewid a wnaeth i ni yn ystod cyfarfod yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn cyd-weithio'n gadarnhaol ac ar frys gyda'r Cyngor er mwyn gwireddu'r datrysiaid hwn i'r sefyllfa echrydus y mae Ysgol Treganna a Than-yr Eos ynddi'.


Nid oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi cael rhag-hysbysiad o ddatganiad y Cyngor, ac felly nid oedd Carwyn Jones, a wrthododd gynllun blaenorol y Cyngor, mewn sefyllfa i addo'r gefnogaeth ariannol angenrheidiol, heb gael cyfle i astudio'r cynllun.

Byw mewn gobaith felly mae rhieni ac athrawon Ysgolion Treganna a Than-yr-Eos ar hyn o bryd.

Cafwyd dau berfformiad graenus o'r ddrama 'Un o'r Gloch o'r Tŷ' yn Theatr y Crwys ar Nos Wener a Nos Sadwrn Medi y 10fed a'r 11eg. Drama gomedï yw hon o waith yr awdur Frank Vickery, ac fe'i haddaswyd i'r Gymraeg yn gelfydd iawn gan Bob Roberts. Mae'r ddrama yn cynnwys deuddeg o actorion a nifer dda o olygfeydd ac o'r herwydd roedd gofyn am gastio a chynhyrchu gofalus ac fe gafwyd hynny gan Betsan Evans. Mae'r cwmni hefyd yn ddyledus i nifer o gyfeillion am eu cefnogaeth parod gyda nifer o ddyletswyddau allweddol oddi ar y llwyfan.



Yr un coridor fel ystafell gerdd



Cyfarwyddwr Cerdd newydd Eglwys Dewi Sant: Ieuan Jones, B.Mus., ar y chwith, gyda Rhun ap Iwan, Ysgrifennydd y Cyngor Plwyf

Y Dinesydd

www.dinesydd.com

Golygydd y rhifyn hwn:

Gwynn Matthews

Golygydd y rhifyn nesaf:

Siân Parry-Jones

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn

Tachwedd 2010

erbyn 22 Hydref at:

Siân Parry-Jones,

87 Halliard Court, Glanfa Iwerydd,

Caerdydd CF10 4NH

ebost: sepj@cardiffbay.clara.co.uk

ffôn: 07985043633

MANYLION CYSYLLTU

Calendr y Dinesydd

Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr

Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ

(JamesEW@caerdydd.ac.uk)

029-2062-8754)

Hysbysebion

Menter Caerdydd,

42 Lambourne Cres,

Parc Busnes Caerdydd, Llanisien,

Caerdydd CF14 5GG

(hysbysebu@dinesydd.com;

029-20689888)

Dosbarthu copïau

Huw Jones, 22 Blaen-y-Coed, Radur,

Caerdydd. CF15 8RL

07985 174997

Cyhoeddir Y Dinesydd gan

Bwyllgor Y Dinesydd.

Fe'i cysodir gan Penri Williams

a'i argraffu gan

Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

Gobaith i Dreganna o'r diwedd?

Ar Fedi 21ain cyhoeddodd Sir Caerdydd eu bwriad o godi adeilad newydd sbon ar gyfer plant Ysgolion Treganna a Thanyreos ar safle yn Heol Sanatoriwm ar gost o £9miliwn. Byddai'r ysgol yn gallu derbyn 90 plentyn y flwyddyn sef 3 ffrwd ac â lle hefyd i ysgol feithrin. 2 ffrwd sy'n gallu mynd ar hyn o bryd i'r ysgolion presennol a nid oes darpariaeth meithrin gan y sir yn gysylltiedig â hwy.

Serch ymrwymiad Carwyn Jones i weithio'n agos â Sir Caerdydd i ddatrys problemau addysg Gymraeg yn ardal Canton yn sgil ei benderfyniad i wrthod cynllun y sir ar gyfer dyfodol Treganna, nid oedd e wedi clywed am fwrriad y sir cyn iddo ddarllen amdano yn y papurau dyddiol fore Mawrth Medi 21ain fel y cyfaddefodd yn ystod cynhadledd y wasg y bore hwnnw. Eto dywedodd fod arian ar gael yng nghoffrau Llywodraeth Cymru i ddarparu'r £6M y mae'r sir ei eisiau fel cyfraniad.

Mae gobaith felly y bydd cynllun Caerdydd ar gyfer Treganna a Thanyreos yn symud ymlaen y tro hwn. Mae arweinydd y cyngor Rodney Berman wedi sicrhau cefnogaeth cynghorwyr Llafur ardal Canton oedd mor fileinig yn erbyn y cynllun blaenorol gyda chefnogaeth Rhodri Morgan yr AC lleol. Y cwestiwn yw a fydd Carwyn Jones yn llwyddo i wireddu yr hyn a ddywedodd yn fyrfyr yng nghynhadledd y wasg ddydd Mawrth. Mae siroedd eraill hefyd yn ceisio arian y llywodraeth ar gyfer cynlluniau addysg - Sir Gâr a Sir Aberteifi, i enwi ond dwy.

Mae sawl clwyd i neidio drosto cyn y gall plant Treganna a Thanyreos gael eu haeddiant, ac wrth gwrs nid oes gobaith i blentyn dros 8 fynd i'r ysgol newydd am na fyddai'n agor tan Medi 2013 beth bynnag. Nid yw'r sir wedi datgelu sut y bydd yn lleoli plant dros y nifer 120 sy'n

Llyfr Aneurin

Mae Cyngor Caerdydd wedi penderfynu rhoddi cartref newydd i un o brif drysorau'r ddinas, *Llyfr Aneurin*. Llawysgrif yw hwn yn cynnwys yr unig gopi canoloesol o'r arwrgerdd 'Y Gododdin'. Fe'i copïwyd tua 1265, er fod y gerdd ei hun wedi ei chyfansoddi gan Aneurin tua 600 o.c. Bydd y llawysgrif unigryw a gwerthfawr hwn yn cael ei roddi ar fenthyg parhaol i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, ond caiff Llyfrgell Ganolog Caerdydd ddau facsimili.

Bydd rhai eraill o drysorau y casgliad o lyfrau prin a fedd Dinas Caerdydd yn cael eu dangos yn llyfrgell y Brifysgol nos Wener 5 Tachwedd yng nghyfarfod Cymrodorion Caerdydd. (Gweler y Calendr).

gallu cael eu derbyn rhwng ysgolion Treganna, Tanyreos a Phwll Coch na chwaith beth fydd yn digwydd i Ysgol Tanyreos sydd i fod i symud maes o adeiladau Ysgol Parc Ninian ar ôl Gorffennaf 2011. Yn 2009, ac eto eleni, bu ceisiadau gan rieni 130 plentyn am le yn y 3 ysgol bresennol ac ar hyn o bryd mae nifer y rhieni sy'n dewis addysg Gymraeg yng Nghaerdydd yn cynyddu'n flynyddol ar raddfa tua 10%.

Erbyn hyn rwyf wedi gweld ffigyrau swyddogol bod 603 plentyn wedi dechrau addysg Gymraeg eleni ac ar ben y ffigwr hwn mae tua 20 plentyn naill ai o hyd yn aros am wrandawriad apêl neu wedi methu ar apêl ond y rhieni heb eto benderfynu ar yr opsiynau syn agored iddynt. Does ond 3 ysgol lle mae nifer o lefydd gwag sef 24 yn Ysgol Penygroes (Pentwyn), 19 yn Ysgol Penypil (Trowbridge) a 23 yn Ysgol Glan Ceubal (Gabalfa).

Pe bai'r twf erbyn 2011 yn 10% ar ben y 620 sy'n debyg o fod y ffigwr terfynol am eleni, fe ellir disgwyl ceisiadau am tua 680 lle fis Medi nesaf. Mae'r sir yn darparu 665 lle ar hyn o bryd a mae'r llefydd gwag bron i gyd ar ochr ddwyreiniol afon Tâf, ac ar y cyfan yn bell i ddwyrain yr afon. Bydd RhAG yn pwysu am ddarparu tua 4 ffrwd ychwanegol wedi'u lleoli yng ngorllewin a chanol Caerdydd i roi hyblygrwydd i ddarpariaeth ar gyfer addysg gynradd Gymraeg y flwyddyn nesaf.

Yn y cyfamser mae swyddogion a mwyaftrif cynghorwyr Caerdydd yn haeddu clod a diolch am yr hyn maent wedi ei wneud hyd yn hyn.

Michael Jones

Cydnabyddir cefnogaeth



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

SIOP Y FELIN, 54 - 60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. CF14 1DJ

CABAN, 169 Kings Road, Pontcanna, Caerdydd. CF11 9DE

PETHAU BYCHAIN, 20 Stryd Bute, Mermaid Quay, Bae Caerdydd. CF10 5BZ

DERI STORES, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, Caerdydd. CF14 6SA

VICTORIA FEARN GALLERY, 6b, Heol y Deri, Rhiwbeina, Caerdydd. CF14 6HF

HALLS, 44, Stryd Fawr, Llandaf, . CF5 2DZ

HALCYON DAZE, 55 Wellfield Road, Y Rhath, Caerdydd. CF24 3PA

SIOP Y BONT, Marchnad Pontypridd, Pontypridd. CF37 2ST

SIOP LYFRAU WINDSOR, 9a Windsor Road, Penarth. CF64 1JB

FOOD FOR THOUGHT, 12 High Street, Y Barri. CF62 7EA

THE CHOCOLATE BOX, Boverton Road, Llanilltud Fawr. CF65 1YA

THE LITTLE SHOP OF CALM, 1 Westgate, Y Bontfaen. CF71 7AQ

COFFEE LOUNGE, 38 Station Road, Llanisien

Colofnydd y Mis

Mae Eisteddfod Glyn Ebwy a gwyliau'r Haf ar ben ers tro bellach ac mae pawb yn ôl yn y tresi ac yn wynebu cyfnod newydd yn eu bywydau. Buan iawn bydd bwrlwm y Nadolig yn ein taro a bydd blwyddyn arall yn ein hanes wedi dod i ben !

Mae 'na chwe mis wedi pasio bellach ers i'r *Dinesydd* ymddangos ar ei newydd wedd a bod angen talu amdano am y tro cyntaf yn ei hanes. Erbyn hyn argreffir 800 copi yn fisol yn lle'r 3,000 copi pan oedd y papur ar gael am ddim. Yn ôl y cyfrifiad diwethaf mae tua 30,000 o siaradwyr Cymraeg yn byw yn y ddinas a felly mae tipyn o ffordd i fynd cyn y byddwn yn cyrraedd y mwyafrif o'r bobl hynny ! Ond yn y cyfamser diolch fod o leiaf 800 o bobl yn gweld gwerth mewn cefnogi ein papur bro – y cyntaf yng Nghymru !

Cafwyd Eisteddfod ardderchog yng Nglyn Ebwy a gwelwyd dros 136,000 yn ei mynychu er gwaethaf y pryder y byddai pobl yn cadw draw. Gwelwyd llawer o drigolion Caerdydd yn ennill ynddi gan roi'r farwol i bobl sy'n barod i feirniadu ein prifddinas am fod yn Seisnigaidd. Llongyfarchiadau i bawb a enillodd wobwr gan ddwyn clod i Gaerdydd.

Mae twf addysg cyfrwng Cymraeg yn y ddinas yn destun balchder, ond yn sgil y twf mae problemau wedi codi yn ardaloedd Treganna a'r Eglwys Newydd, ond problemau dros dro gobeithio ydy rheini a delir i weld twf cyson ymhob rhan o'r ddinas. Pan o'n i'n blentyn ifanc yng Nghaerdydd doedd dim darpariaeth drwy'r Gymraeg, ond nawr mae'r rhod wedi troi ac mae miloedd o blant y ddinas yn cael y fraint o dderbyn eu haddysg drwy'r iaith. Felly, dydy pethau ddim yn ddu i gyd yn hanes yr iaith!

Ar ddechrau tymor newydd o weithgarwech, braf ydy croesawu nôl i Gaerdydd ddau o'i meibion, sef Alun Davies, gynt o Lwynfedw, sy'n dychwelyd i fod yn Brifathro Ysgol Glantaf, a Craig Bellamy, gynt o Trowbridge, sy'n dychwelyd ar fenthyg i chwarae i'r Adar Gleision. Dymunwn pob llwyddiant i'r ddau yn eu gwahanol feysydd!

Gwilym E. Roberts.

Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

Dathlu canlyniadau gwych arholiadau'r Haf

Ar drothwy deng mlwyddiant yr ysgol testun balchder mawr i staff, rhieni a disgyblion oedd y ffaith i ganlyniadau'r haf dorri pob record gyda disgyblion blynyddoedd 11 a 13 yn profi llwyddiant aruthrol. Am y tro cyntaf yn hanes yr ysgol, llwyddodd tri disgybl, Mathew Metcalf, Mollie Arbutnot a Ruth Pilcher i ennill lle yn Rhydychen a Chaergrawnt ac mae pump arall yn mentro i fyd meddygaeth. Llwyddodd 99% o'r disgyblion i ennill graddau A* i C mewn dau neu fwy o bynciau Safon Uwch ac o'r rhain dyfarnwyd graddau A neu A*i dri ar ddeg o ddisgyblion. Profodd y Fagloriaeth Gymreig yn llwyddiant ysgubol gyda'r holl ddisgyblion yn llwyddo, y mwyafrif llethol ohonynt yn cwblhau y Fagloriaeth Uwch. Rhai dyddiau yn ddiweddarach, dathlwyd canlyniadau anhygoel ymhlith blwyddyn 11 gyda 90% o'r disgyblion yn llwyddo i ennill graddau A* i C mewn pump neu fwy o bynciau. Braf iawn gweld bod cymaint o'r disgyblion wedi gwireddu eu potensial ac wedi llwyddo. Mae yn agos at gant ohonynt wedi dychwelyd i flwyddyn 12 ac edrychwn ymlaen at weld datblygiad pellach eu gyrfa addysgol.

"Dyro dy law..."

Yn unol ag arwyddair yr ysgol "Dyro dy law imi ac fe awn i ben y mynydd" mentrodd criw dewr o staff a chynrychiolwyr o'r gymdeithas rieni i gwblhau sialens y Tri Chopar ar ddechrau Medi. (Llun ar dudalen 16).

O dan arweiniad Paul Donovan, un o'r rhieni llywodraethwyr, llwyddwyd i gwblhau y sialens o ddringo Yr Wyddfa, Cadair Idris a Phenyfan o fewn un penwythos. Nod y sialens oedd lansio dathliadau deng mlwyddiant yr ysgol trwy'n llythrennol weithio fel tim i wireddu potensial fel sy'n cael ei nodi yn ein cenhadaeth i'r disgyblion. Edrychwn ymlaen at gael dathlu'r deg gyda ffrindiau a chyn-ddisgyblion yn ystod y flwyddyn.

Ysgol y Berllan Deg

Maes y Fron

Er gwaetha'r gwynt a'r glaw, cafodd 46 o ddisgyblion Blwyddyn 5 dridiau i'w cofio yn dysgu pob math o sgiliau newydd ar Fferm Maes y Fron (Call of The Wild), Abercraf. Heb amheuaeth, y gweithgareddau mwyaf poblogaidd fu'r sgramblo ceunant eleni eto. Gobeithio fod pawb wedi dadflino erbyn hyn! (Llun tudalen 4)

Staffio

Croeso atom i Mrs Sian Giles i Flwyddyn 4, a bydd Miss Eleri Jones yn aros gyda ni dros y ddau dymor nesaf ym Mlwyddyn 5. Yn ychwanegol, croesawn gynorthwyr dosbarth i'n plith, sef Zoe Simons, Siwan Matthews, Jane Rickard, Sara James a Rhian Salisbury. Hefyd croesawn Mrs Esyllt Williams atom tan ddiwedd y tymor fel ysgrifenyddes yn ystod cyfnod mamolaeth.

Chwaraeon

Bu criw o fechgyn o Flwyddyn 5 a 6 yn cymryd rhan yn Nhreialon Rygbi a Phêl Droed Caerdydd. Llongyfarchiadau mawr i Ioan Davies, Blwyddyn 6 ar gael ei ddewis.

Sŵ Bryste

Bu Blwyddyn 2 yn mwynhau diwrnod prysur a diddorol yn dysgu am yr anifeiliad yn Sŵ Bryste.

Gwobr Ysgol Ryngwladol

Rydym yn falch fel ysgol o dderbyn y cam 'Sylfaen' a'r cam 'Canolradd' Gwobr Ysgol Ryngwladol.

Cyn-ddigybllion

Rydym yn falch o lwyddiant Bethan Enoch a Sarah Jones sy'n ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Glantaf, am gael eu dewis i actio mewn drama yn Llundain.

Dataglo

Gwasanaeth gweinyddol ac ysgrifenyddol

Os hoffech help gyda gwaith swyddfa o bob math, cofnodion cyfarfodydd, neu i drefnu digwyddiad neu gyfarfod, ffoniwch 07779 360614

ebost: heulwen@dataglo.com

Telerau rhesymol

Sbonc a Chlonc yn ôl yn y Tabernacl!

Mae Mudiad Ysgolion Meithrin Caerdydd yn falch iawn i ddatgan ein bod wedi cael gwahoddiad gan Gapel y Tabernacl yn yr Ais yng nghanol y ddinas i gynnal sesiwn "Ti a Fi" wythnosol bob bore dydd Iau yn y Tabernacl. Bydd hi'n braf i weld y "Sbonc a Chlonc" yn ôl yn yr adeilad i fyny'r grisiau fel oedd yr arfer yn hanesyddol.

Diolch yn fawr i aelodau'r Tabernacl am eu cymwynas, a gwahodddwn bawb sydd â phlant bach nad ydynt wedi cyrraedd oedran ysgol draw i'n diwrnod agored ddydd Iau, Tachwedd 4ydd am 9.30yb i ymweld â'r ystafell groesawgar sydd â phiano yn aros i gael plant bach (a rhieni) i gyfeilio! Hoffai Swyddog Datblygu Caerdydd M.Y.M. rhoi croeso arbennig i unrhyw dadau sydd am dreulio amser gyda'i blentyn ar fore dydd Iau. Meddai "Dwi'n cofio edrych am gyfleoedd i gymdeithasu a dysgu diwylliant i'm merch i pan oeddwn yn newydd i'r ddinas, a daeth sesiynau Ti a Fi y Mudiad i'r adwy, felly hoffwn gynnig yr un cyfle i dadau eraill y ddinas nawr." (Llun tudalen 4)



Disgyblion Blwyddyn 5 Ysgol y Berllan Deg ar Fferm Maes y Fron, Abercraf

Ensemble Telynau Taf



Ensemble telynau o 16 o blant ifanc yw Telynau Taf a ddaeth at ei gilydd, o dan arweiniad Sian Wyn, i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Glynebwy. Llwyddasant i ddod yn ail yng nghystadlaethau y Grwp Offerynnol Agored, a hynny yn erbyn oedolion profiadol iawn.

Ddiwedd Awst gwahoddwyd hwy i berfformio yn y Gerddi Botaneg Cenedlaethol fel rhan o'r Wyl Delynau, gan dderbyn croeso cynnes gan lu o ymwelwyr, ac yn eu plith rhai o delynorion enwocaf Cymru, megis Catrin Finch a Claire Jones.

Mae Telynau Taf yn bwriadu parhau i berfformio yn y dyfodol ac mae'r aelodau yn awyddus iawn i dderbyn unrhyw wahoddiadau a ddaw. Disgyblion ysgolion Pwll Coch, Pencae, Berllan Deg, Melin Gruffydd a Phlasmawr yw aelodau'r ensemble. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Sian ar 07925 116873.



Tu allan i'r Palas – o'r chwith i'r dde: Hywel Jeffreys, Gwyneth Jeffreys, Elinor Jones, Dwyfor Lynn Jones.



Ysgol Melin Gruffydd ar antur yn Abercraf



Wyn Williams (gyda'i ferch) yn paratoi at ail-agoriad Ti a Fi 'Sbonc a Chlonc' yn y Tabernacl. Ie, bydd croeso arbennig i dadau! (Stori tudalen 3)



Organ Capel Tabernacl yr Ais (stori tudalen 11)

Diwrnod i'r Brenin

Mae sawl achos da wedi elwa o weithgarwch diflino Hywel a Gwyneth Jeffreys yn cynnal 'soirees' yn eu cartref i godi arian at elusenu. Maent wedi codi dros £100,000 erbyn hyn. Fel cydnabyddiaeth o'u hymdrechion dyngarol cawsant wahoddiad i barti gardd yn Mhalas Buckingham a gynhaliwyd 20 Gorffennaf.

Cawsom ddiwrnod wrth ein bodd – yn westeion tafod-ym-moch i'r Cwîn ym Mhalas Buckingham yng nghwmni ffrindiau hawddgar.

O orsaf Paddington cawsom darsi i Barc Hyde, ac yna aethom (i gyfeiliant offerynwyr y band yn eu gwisgoedd llachar) ar daith gerdded drwy ardd hudolus sy'n bictiwr o rosynnau prydferth.

Ar derfyn y daith gerdded cyraeddasom lawnt gefn y Palas. Roedd yn fyw gan ferw pwysigion o bob haen o gymdeithas: cadfridogion a milwyr y fyddin, esgobion, cenhadon a gwyrda'r eglwysi, cyn fawrion ac enwogion Tŷ'r Arglwyddi, gwragedd yn dangos ôl gofidiau bywyd, cariadon gobeithiol ar drothwy'r dyfodol. Ymhlith y dyrfa enfawr o bob rhan o'r byd, mor lliwgar yn ysblander eu hetiau, ffrogiau a pherlau, 'roedd "agnostics" fel ni yn cydymdeimlo â'r dreth oedd ar y gweision wrth iddynt weini'n ddistŵr (ufudd i wrando pob gofyn, parod eu gwên a'u croeso ac awyddus i gyflawni cymwynas).

Pawb yn aros yn ddisgwylgar am ei Mawrhydi. Ac o'r diwedd wele'r band yn chwarae "God Save the Queen". A dacw nhw'n dod: y Frenhines a'r Dug, Carlo'r mab a'i ail wraig Camilla.

Tybed a wnaent ddiwallu ein blys am sgwrs?

Ysywaeth! Nid oeddem ymhlith y breintiedig rai. Er hynny, chwarae teg, bu iddynt – gyda'r dewisol rai – chwarae eu rhan gydag urddas, yn gwrandio a sgwrsio'n ddiymhongar a nodio'n wengar a diolchgar bob yn ail, cyn dychwelyd ymhen yr awr i'w lloches ym Mhalas Buckingham.

Ar y daith adref, wrth gnoi cil, fe'n tarodd inni gael gwledd o ddanteithion blasus, diwrnod o brofiadau pleserus, a chroeso brenhinol atgofus.

A bod yn onest tybed a ydym o hyd yn weriniaethwyr?

Hywel W Jeffreys.

Ysgol Melin Gruffydd

Staff

Croeso i athrawon newydd yr ysgol - Miss Caryl Pollard (bl 2), Miss Sioned Evans (Dosbarth Derbyn) a Mr James Williams (CPA). Croeso hefyd i'n cynorthwywyr dysgu newydd - Miss Rhian Jones, Miss Lynwen Davies, Mrs Elin Prydderch a Miss Marged Sion.

Cyrsiau Preswyl

Bu plant blynyddoedd 4 a 5 i ffwrdd ar gyrsiau preswyl ym mis Medi. Aeth blwyddyn 4 i Abercraf ac aeth blwyddyn 5 i ganolfan Danywenallt. Y ffocws yn ystod yr ymweliadau oedd astudiaethau'r amgylchedd. Rhaid llongyfarch y plant am eu hymddygiad a'u hagwedd yn ystod yr ymweliadau. Dyma adroddiad a cherdd am yr ymweliad gan ddisgyblion Blwyddyn 4:

Ar antur yn Abercraf

Aethon ni i Abercraf ar Ddydd Mercher yr 8fed o Fedi a dod yn ôl ar Ddydd Gwener y 10fed. Roedd pedwardeg o blant wedi mynd ar y daith ac roedd pawb yn gyffrous am yr antur fawr! Ar ôl cyrraedd Maes y Fron a chario'n bagiau i'r ystafelloedd, aethon ni i chwarae gemau tim fel pel gwter, gwe pry cop a llawer mwy. Wrth chwarae roedd rhaid cydweithio a chanolbwytio - roedd y gemau'n llawer o hwyl a hoffem eu chwarae eto!

Y diwrnod wedyn gwnaethon ni pob math o weithgareddau gwych. Cerdded lan mynydd y Cribarth oedd y peth cyntaf, a gwelon ni ddefaid a cheffylau gwyllt a sawl Siani flewog, ac ar gopa'r mynydd mae 'na olygfa wych. Mae'n serth iawn i gerdded lan ond yn hawdd i ddod lawr!

Roedden ni wedi cael hwyl yn dringo craig y Ddinas yn y glaw cyn dod yn ôl i'r fferm a gwrandio ar Geraint yn adrodd straeon ysbyrd am farchogion Arthur.

Cawson ni lot o hwyl yn Abercraf— dyna'r peth gorau ydyn ni byth wedi gwneud yn ein bywydau! Roedd Abercraf yn wych a dydyn ni ddim yn gallu aros tan flwyddyn nesaf i fynd i Dan y Wenallt.

Dringo!

gan ddisgyblion Blwyddyn 4

Chwilio, Teimlo

Gafael, Cydio

Tynnu, Gwthio

Plygu, Sefyll

Ymestyn, Pwyso

Neidio, Glanio

Dringo!

Ysgol Gymraeg Coed y Gof

Croesawu

Mae'n ddechrau blwyddyn academaidd brysur arall yn Ysgol Coed y Gof ac rydym eleni yn ffodus iawn i groesawu nifer o aelodau newydd at ein staff.

Croeso mawr i'n hathrawon newydd, Miss Helen Roberts Bl 3, Miss Elin Williams Bl 1 ac Mr Owen Wrangham Bl 4. Croesawn yn ogystal nifer o gynorthwyon newydd sef, Miss Carly Bishop, Miss Lauren Williams, Miss Bethan Walker, Miss Mari Davies, Miss Rachel Rawlins, Miss Angharad Billings a Mr Alun Evans.

Maent eisioes wedi ymgartrefu yn ein plith ac rydym yn mawr obeithio y byddant yn mwynhau ac yn elwa o fod yn rhan bwysig o dîm gweithgar yr ysgol. Edrychwn ymlaen at gydweithio â hwy yn ystod y flwyddyn brysur sydd o'n blaenau.

Ysgol Mynydd Bychan

Ymunodd aelodau newydd â staff yr ysgol ddechrau'r tymor a dymunwn eu croesawu'n ffurfiol drwy gyfrwng y *Dinesydd*.

Yn dilyn dyrchafiad haeddianol Glesni Owen fel Swyddog Prosiect y Blynyddoedd Cynnar, rhaid oedd dod o hyd i athrawes a fyddai'n llwyddo i lenwi ei hesgidiau – tipyn o dasg! Trwy lwc, llwyddasom i apwyntio Elen Davenport. Daw Elen o Harlech yn wreiddiol, ac mae hi eisioes wedi creu argraff a phrofi ei hun fel aelod gwerthfawr o'r staff.

Buom yn ffodus o gael un o lywodraethwyr yr ysgol, Fflur Elis, yn gyfrifol am yr Adran Anghenion Ychwanegol yn ystod y flwyddyn aeth heibio, ond gyda thristwch rhaid oedd derbyn ei dymuniad hithau i roi'r gorau i'w dyletswyddau. Apwyntiwyd Wendy Wylie, yn wreiddiol o Feidrim, Caerfyrddin, i ymgymryd â'r rôl, ac mae ffrwyth ei llafur o fewn mis yn dechrau ymddangos yn barod! Dymunwn yn dda i'r ddwy.

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ddiwedd Awst eleni tynnwyd fy sylw at arolwg a gynhaliwyd ar ran y Gymdeithas Frenhinol, y gymdeithas fwyaf mawreddog ymhlith cymdeithasau y gwyddorau. Ychydig yw'r rhai sy'n cael eu hethol yn gymrodyr; mae'r tair llythyren F.R.S. yn farc o fri. Prif ganlyniad yr arolwg, a ganolbwyntiodd ar bobl yn yr ystod oedran 18-24, oedd bod traean y rhai a holwyd yn medru enwi o leiaf un wyddones. Cyflwynwyd y casgliad mewn modd beirniadol, sef, onid yw yn siom, yn dristwch, yn warth, yn feirniadaeth lem ar yr holl ymdrechion, yr holl wariant i ddyrchafu gwyddoniaeth yn y drefn addysg mai ond traean sy'n medru enwi un wyddones?

Pan ofynnwyd am fy ymateb dwedais mod i'n synnu, ond yn llawenhau, bod cynifer â thraean yn medru cyflawni'r gamp o enwi un wyddones. Ychydig iawn o goel sy gen' i ar y math hwn o holi'r cyhoedd a llai fyth o hyder mewn unrhyw ddilyniant sy'n seiliedig ar y data a'r casgliad. Rwyn tybio mai tebyg fyddai'r canlyniadau pe bai arolwg yn gofyn cwestiwn tebyg mewn meysydd eraill o ddiwylliant a chymdeithas, megis cerddoriaeth, celf, hanes, crefydd ac yn y blaen.

Er gwybodaeth, yr enw a gynigiwyd amlaf gan y sawl oedd yn medru enwi ond un oedd Marie Curie. Pe baech chi yn cael eich holi ar yr un trywydd, ar y stryd neu mewn cwis, dyma restr fydd yn eich dyrchafu yn ngolwg eich cydgystadleuwyr - Dorothy Hodgkins, Lisa Meitner, Rosalind Franklin, Jocelyn Bell Burnell. Yn dal wrthi ac o Gymru cofiwch am - Jean Olwen Thomas, Dianne Edwards, Eleri Pryse, Valerie Randle, Stephanie Matthews, Gwen Parry Jones, Siwan Davies, Beth Jones.

A beth am enwi un gwyddonydd, heblaw Albert Einstein? Bregus a byrhoedlog ydyw bri.

Yn eisiau:

Cynorthwyr i fam-gu

o fis Hydref ymlaen, i edrych ar ôl baban naw mis oed a bachgen dwy a hanner sydd mewn ysgol feithrin.

Boreau Mercher a lau a gydol dydd Gwener. Lleoliad, Parc y Rath.

Cysylltwch â:

siwanapgwilym@aol.com

Ôl Lwybrau

Yr haf yma cefais gyfle i droedio'r hen lwybrau pan ddaeth gwahoddiad i ddathlu deugain mlynedd ers sefydlu'r Brifysgol Agored yng Nghymru. Wrth dderbyn swydd weinyddol gyda nhw y deuthum i Gaerdydd, ac er nad oeddwn yno pan gychwynnodd, rhyw ddwy flynedd oedd wedi mynd heibio cyn imi ddod yn rhan o'r tîm. Roedd cael swyddfa ar bymthegfed llawr Tŵr y Brifddinas yn brofiad arbennig. Dyma'r olygfâ orau a gefais erioed o'm swyddfa - edrych mewn i'r castell, ar hyd Ffordd y Gogledd a Pharc Cathays, a gweld yr haul yn disgleirio ar ffenestri'r ceir yn ymlwybro dros Bont Hafren ar ddiwrnod clir.

Ymestynnai'r gwaith dros Gymru gyfan, ac roedd yn bur wahanol i weithio yng nghanol myfyrwyr ar gampws Prifysgol Abertawe, lle y bûm ynghynt. Gwireddu breuddwyd y prif weinidog Harold Wilson a'i weinidog dros y celfyddydau, Jennie Lee, oedd sefydlu'r Brifysgol Agored. Prifysgol yr ail-gynnig, er bod rhaid talu am y cyrsiau, sydd bellach yn gyffredin. Roeddynt yn dysgu'r myfyrwyr mewn ffordd flaenllaw iawn ym myd addysg y dydd - cyhoeddi gwerslyfrau, rhaglenni radio neu deledu yn rhan o'r cwrs, a hynny cyn amser fideo a recordydd tâp, cynnal tiwtorialau ar draws Cymru a mynychu ysgolion haf dwys. Roedd gennyf edmygedd mawr o'r myfyrwyr - pobl ynghanol bwrlwm bywyd yn ymroi i'w cyrsiau. Roeddynt mewn swyddi llawn amser, gyda dyletswyddau teuluol, a nifer ohonynt yn fyfyrwyr anabl yr oedd yn rhaid gwneud trefniadau manwl iawn ar eu cyfer. Roedd y seremonïau graddio yn ddathliad i deulu cyfan.

Yng Nghaerdydd o dan arweiniad Dr Harford Williams a Dr Rowland Wynne roedd staff academaidd a oedd yn sicrhau bod mewnbyn am Gymru yn y cyrsiau lle'r oedd hynny'n briodol. Ac, wrth gwrs, roedd yn rhaid atgoffa'r awdurdodau yn Milton Keynes am Ddeddf yr Iaith o dro i dro, a bod trefniadau darlledu ychydig yn wahanol yma i weddill Prydain. Llwyddiant aruthrol oedd yr holl fenter, a da cofio bod yn rhan o'r bwrlwm am rai blynyddoedd.

Eirian E Edwards

Gŵyl Llên y Lli 2010 – Deffro'r Dychymyg 25 – 30 Hydref 2010 Bae Caerdydd

Cynhelir Gŵyl Llên y Lli, gŵyl lenyddol yr Academi, mewn amryw o leoliadau ar hyd a lled Bae Caerdydd. Pwnc un o ddigwyddiadau cyntaf yr ŵyl fydd *Pen Talar*, sef drama fawr yr hydref ar S4C. Yng nghwmni'r cynhyrchydd **Gethin Scourfield**, un o sêr y gyfres, **Ryland Teifi**, a'r adolygydd **Sioned Williams**, bydd **Luned Aaron** yn holi sut mae cyplysu'r ffuglen a'r ffeithiol ar gyfer y teledu, a sut mae dramateiddio hanes cenedl gyfan drwy'r degawdau.

Ceir dau gyfuniad unigryw o lenyddiaeth a cherddoriaeth wrth baru **Gwennan Evans** gyda **Griff Lynch** a **Gruffudd Pritchard** o *Yr Ods* a **Casia Wiliam** gydag **Eurig** ac **Ynry Roberts** o *Brigyn* i greu EP mewn diwrnod. Mewn digwyddiad arbennig gyda'r nos yng nghwmni **Hefin Thomas**, un o gyflwynwyr C2, bydd cyfle i glywed holl hanes y broses o gydweithio ynghyd â'r uchafbwynt, sef y cynnyrch gorffenedig. Edrychwn ymlaen am berfformiadau gwreiddiol ac arbrolfol gan **Aneirin Karadog**, **Rufus Mufasa**, **Liam Johnson**, **Ceri Elen**, **Hannah Silva** a **Byron Vincent**; a bydd cyfle i unrhyw un gyfrannu i'r noson drwy anfon txt, gan greu tameidiau o lenyddiaeth fydd yn cael eu harddangos y tu ôl i'r perfformiadau. I gloi'r noson bydd **Colorama** yn chwarae set fyw.

Tro'r beirdd fydd hi yng nghwmni Y Glêr sef **Eurig Salisbury**, **Hywel Griffiths** ac **Osiain Rhys Jones**. Gyda cherddoriaeth gan y DJ **Meic P**, dyma noson hwyliog fydd yn defnyddio hen fesur y gynghanedd mewn modd nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen. Cynhelir gweithdy sgrriptio gan **Dafydd James**, sef awdur y ddrama gynhyrfus *Llwyth*, gweithdy ffansin **Geraint Criddle**, a bydd trafodaeth rhwng **Llwyd Owen** a **Jon Gower** ynglŷn â'r ffenomen o gyfieithu cyfrolau Cymraeg i'r Saesneg. Bydd **Catrin Dafydd** yn cloi'r ŵyl drwy gyflwyno rhyddiaith, barddoniaeth a sgriptiau digri gan lenorion ifanc sy'n dechrau dod i'r amlwg yng Nghymru. Yn cymryd rhan bydd **Llyr Gwyn Lewis**, **Gwilym Dwyfor**, **Gruffudd Eifion Owen**, **Chris Cope** a **Lleucu Gruffydd**.

Mynnwch gopi o'r rhaglen lawn drwy gysylltu â'r Academi: 029 2047 2266 / post@academi.org / www.llenylli.co.uk

Llongyfarchiadau i

Manon Hefin Mathias (o'r Eglwys Newydd gynt) a'r Dr Lewis Allan ar eu dywedd diweddar. Mae Manon wrthi'n cwblhau ei gradd D.Phil cyn cychwyn ar swydd fel darlithydd Ffrangeg yng Ngholeg Worcester, Rhydychen, ac mae Lewis yn gweithio yn y Swyddfa Dramor ar hyn o bryd.

Mari Wyn Elias a Fred Pivotti ar eu dywedd diweddar.

Gareth ac Ann Lloyd Jones, Llandaf, ac Ifor a Janet Phillips, Cyncoed, ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

Gwenno Rowlands ar ymuno â staff Ysgol Gyfun Glan Taf i ddysgu Cymraeg a Hanes.

Mair Rowlands (chwaer Gwenno) ar gael ei hethol yn Llywydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Prifysgol Bangor.

Owain Prys Thomas, Rhiwbeina, ar gymhwyso'n feddyg. Ar hyn o bryd mae o'n gweithio yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.




Mynd o nerth i nerth

Yr hydref yma mae Clwb y Diwc yn Nhreganna yn dechrau ar drydedd blwyddyn o ddigwyddiadau cymdeithasol. Gwaddol Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn 2008 yw Clwb y Diwc. Penderfynodd aelodau pwyllgor apêl ardal Treganna barhau â'r gwaith ond gyda'r nod o godi arian i'w ddsbarthu i fudiadau a sefydiadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn lleol. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ymhlith y rhai sydd wedi derbyn arian gan Glwb y Diwc mae Cyfeillion Pwll Coch i ddatblygu gardd yn yr ysgol; Gerddi Cymunedol Treganna i ddarparu deunydd Cymraeg; clwb rygbi 7 bob ochr Meibion Plasmawr i brynu siorts a chronfa estyniad Capel Salem, sy'n fangre i gynifer o ddigwyddiadau gydol yr wythnos. Pan fo galw mae ein gorwelion yn ehangach ac ym mis Medi fe godwyd £600 i gronfa apêl llyfogydd Pakistan mewn noson arbennig gyda Sibrydion, Nos Sadwrn Bach a Breichiau Hir. Yn gynharach yn y flywyddyn cyfrannwyd swm tebyg i apêl

CROESAIR Rhif 106 gan Rhian Williams

**Atebion i:
22, Heol Cae Rhys,
Rhiwbeina,
Caerdydd. CF14 6AN
i gyrraedd erbyn
18 Hydref 2010.**



Ar Draws

1. Nôd beudy di-do yw bod yn arwydd i'r morwr! (7)
7. Ai teg yw'n Mari ni? (6)
8. Ond i fil fod yn ddiwyd (7)
10. Dechrau ffôl yw gwasgu oren dan y trwyn (5)
11. Sut mae moli'r dof anifeiliaid? (8)
13. Heb deimlad ymhlith y lloerig (3)
14. Agos i'r fynwes (4)
15. Talu'n ôl i Diana ac Alun (4)
16. Yn y lle hwnnw dechreuodd ysgol nos offerynnol (3)
18. Rhywsut trecho Llyr yr ofnadwy (8)
19. 'Planna'r egwyddorion hynny Yn fy ____ bob yn un' (W.W) (5)
21. 'Pentwr arall, yna gorffwys Ennyd ____ ____ ____'. (Crwys) (2,2,3)

23. Garw yw gwerin mewn anghydfod (6)
24. 101 gafr wyllt cyn dechrau'r nos fel aderyn (7)

I Lawr

1. ' ____ ____ ____ sŵn dy eiriau. Awdurdodol eiriau'r nef.' (W.W) (3,2,6)
2. 'Mi godaf f'egwan ____, At Iesu yn y nef.' (B.D) (3)
3. Rhoi 'IOU' i Gethin druan sydd heb ail iaith (8)
4. Dinistr Sodom yn dilyn y taro (6)
5. Yn sylwgar yn creu car uchel iawn (4)
6. Difyn heb ddrws cefn (7)
9. 'Yn ei blyg uwchben ei sgubell Cerdd ____ ____ ____' (Crwys) (2,4,1,4)
12. Llud rhwng y pur (8)
14. Taro heibio gât Nebo i astudio'r blodau (7)
17. I'r myl daw canu crwtyn (6)
20. Talent y wawr yn Lloegr (4)
22. 'A haul Mehefin drwy'r prynhawn Yn bwrw'i ____ i'th gwpan llawn' (I.D.Hooson) (3)

Atebion Croesair Rhif 105

Ar draws: 1 Goganu. 4 Addewid. 8 Llanidloes. 9 Gof. 10 Llinos. 11 Rwysg. 12 Llyn Llech Owain. 16 Gwresog 17 Esgor. 19 Siw. 20 Sylweddoli. 22 Unfarn. 23 Gwynedd.

I Lawr. 1 Galluog. 2 Gwn. 3 Nodyn. 5 Ddistryw. 6 Dyfrgi. 7 A oes o'ch deil o. 9 Gwyliwr. 10 Llwydrew. 13 Llyngeswr. 14 Agosau. 15 Gipiodd. 18 Gwelw. 21 Ofn.

Croesair Rhif 105

Derbyniwyd 9 ymgais a phob un yn hollol gywir. Danfonir y tocyn llyfr i Handel Jones, Rhandirmwyn.

daeargryn Haiti mewn noson odidog gyda Brodyr Parc Nest a Gwyneth Glyn.

Mae croeso i bawb i ddod i nosweithiau Clwb y Diwc – mae Menter Caerdydd yn dosbarthu manylion ac mae grŵp ar Facebook hefyd. Yn ystod y misoedd nesaf mae sawl noson ar y gweill sy'n argoeli bod yn boblogaidd iawn. Ar y 15fed o Hydref byddwn ni'n croesawu Al Lewis ac Elin Fflur nol i'r Diwc ac ar y 19eg o Dachwedd bydd Cwis dan ofal Keith Bach. Bydd noson ychwanegol ym mis Tachwedd hefyd, sef y 26ain, y noson cyn gem y Crysau Duon pan fydd Geraint Lovgreen a'i fand yn dod lawr o'r gogledd i'n diddanu. Ar Ionawr 21ain bydd Rhys Iorwerth yn trefnu noson gyda'r beird ac ar y 18fed o Chwefror Brigyn a Heather Jones fydd gyda ni. A noson cyn gem Iwerddon ar yr 11eg o Fawrth bydd Ail Symudiad yn dod aton ni yr holl ffordd o Aberteifi.

Dewch i ymuno yn yr hwyl a chodi arian i hyrwyddo'r Gymraeg yn y ddinas yn y Duke of Clarence, Clive Rd, Treganna.

PASPORT

Llanc o Geredigion,

Trystan ab Ifan

sy'n cael ei holi y mis yma...

O ble wyt ti'n dod yn wreiddiol?

O bentref Pontrhydfendigaid yng Ngheredigion.

Ym mha ran o Gaerdydd wyt ti'n byw?

Yng Nghlanyrafon ar hyn o bryd, ond 'wi wedi byw mewn nifer o ardaloedd yng ngorllewin y ddinas. 'Wi heb fyw ar yr ochr ddwyreiniol yn rhyfedd iawn.

Ers faint wyt ti'n byw yng Nghaerdydd?

Mae'n 10 mlynedd bron i'r diwrnod erbyn hyn, 'wi'n cofio yn iawn pryd oedd hi gan fod yna giwiau mawr ger y gorsafoedd petrol oherwydd y streic danwydd.

Beth fuest ti'n ei wneud cyn[neu]ar ôl symud yma?

Pan ddes i lawr gynta' bues i'n gweithio yn HTV yn yr Adran Materion Cyfoes, cyn hynny ro'n ni'n gweithio i Radio Ceredigion yn Aberystwyth, erbyn hyn dwi'n gweithio i Radio Cymru yn Llandaf ag hefyd yn diwtor Cymraeg i Oedolion yng Nghaerdydd a Phenarth.

Es i i'r Coleg Normal ym Mangor, coleg a sefydlwyd gan John Phillips oedd yn hannu o bentre Pontrhydfendigaid.

Beth wyt ti'n hoffi ei wneud yn dy amser hamdden?

'Wi'n mwynhau canu yn fawr ag yn aelod o Gor Meibion Taf (ymarferion bob nos Sul am 7.30 yn Ffestri y Tabernacl gyda llaw), 'wi hefyd yn hoff iawn o hanes lleol, darllen bywgraffiadau a chwasio. Ma 'na gwis ardderchog yn cael ei gynnal bob nos Sul yn nhafarn y Conway lle dwi'n taro draw ar ôl ymarfer y côr.

Does dim byd gwell chwaith na cherdded yn yr awyr iach. Mae ardal y ffin yn y Mynyddoedd Duon o amgylch Llanddewi Nant Honddu yn ardal hyfryd ynghyd â Dyffryn Olchon sy'n arwain o'r Dref-hir i'r Gelli Gandryll. 'Wi ar hyn o bryd yn ogystal yn dilyn cwrs Crochenwaith yng nghanolfan Llanofar. Gobeithio erbyn diwedd y cwrs bydd yna rhywbeth gwerth ei roi ar y silff i gadw offer y gegin neu arian mân!! Ma' gyda fi ddi-ddordeb mawr hefyd mewn ffotograffiaeth ffilm; 'does gyda fi ddim camera digidol fel pawb arall!

Be sy'n gwneud i ti chwerrthin?

Y sbort mwyaf 'wi erioed wedi cael yw gweld twristiaid yn ceisio pigo darn 50ceiniog oedd wedi ei ludo i'r palmant ar Heol y Wig yn Aberystwyth. 'Ro'n nhw'n



trio popeth i drio cuddio'r ffaith bod nhw wedi gweld y darn arian....plygu lawr gan esgus clymu lasus eu sgidiau, colli arian er mwyn pigo'r darn i fyny, a'i gicio yn ddi-drugared!!

Does dim ond un athrylith comedi ar hyn o bryd a Chris Morris yw hwnnw. Fe oedd yn gyfrifol am y cyfresi comedi "Brass Eye" a "The Day Today". Mae ei ffilm ddiweddaraf "Four Lions" werth ei gweld. Mae dramau comedi tywyll Martin McDonagh fel "The Lieutenant of Inishmore" yn gwneud i fi rowlio chwerrthin yn ogystal.

Beth sy'n dy wylltio di?

Un o'r pethau sydd yn codi ngwrychyn i yw cybydd-dod, does dim byd gwaeth!

Dwi hefyd yn mynd yn benwan ar sut mae pobl mor barod i dderbyn yn ddigwestiwn y rhyddid sy'n cael ei gollu i wneud pethau oherwydd "rheolau iechyd a diogelwch" bondigrybwyll. 'Dwi hefyd yn credu bod haenau o reolau a chyfyngiadau sy'n cael eu creu ar bapur dim ond er mwyn cyfiawnhau gwaith i rai pan does ganddyn nhw ddim byd gwell i'w wneud.

Oes yna fannau yng Nghaerdydd wyt ti'n hoffi mynd iddyn nhw? Pam?

Mae Bwyty Eidalaid Di Marios oddi ar Heol y Frenhines yn le wi'n dwli mynd iddo. Gwerddon o le yng nghanol bwytai di-enaidd di fflach sy'n britho cymaint o'n trefi a'n dinasoedd ni. Bwyd a gwin ardderchog, cyfle am sgwrs gall gyda staff rhyngwladol y lle, boed yn Gymry Cymraeg, yn Giwbanaid, Galisiaid, Eidalwyr a Phortiwgeaid. Cymeriadau hwyliog braf a diddan i gyd, petai ond awdurdodau'r ddinas yn rhoi cymaint o ynni ag arian yn hyrwyddo hynodrwydd a rhinweddau llefydd bychain o'r math yma yn hytrach na'r siopau corfforaethol diwyneb.

Lle wyt ti'n hoffi mynd am wyliau?

Norwy. Does dim gwlad debyg iddi o ran golygfeydd, safon byw, agwedd pobl tuag at fywyd yn gyffredinol, glendid.....fe allen i gario mlaen!

Beth ydy'r peth mwyaf unigryw am Gaerdydd? Pam?

Y bywyd gwyllt sydd ymhobman. Faint o ddinasoedd eraill sydd â chrychod cam dirifedi yn hela yn ei hafonydd, a sydd â chudyll yn nythu yn ei chanol. Un noson yng nghanol Glanyrafon (nid ar ar ochr yr afon) weles i ddwy hwyad yn wadlo'n

Cylch Ti a Fi a Chylch Meithrin Radur a Phentre Poeth

Mae'n ddechrau tymor unwaith eto. Mae Cylch Ti a Fi Radur a Phentre-poeth yn gyfle gwych i rieni sydd â babanod rhwng 0 a 4 oed ddod i gyfarfod â rhieni eraill mewn amgylchedd hamddenol a braf ac mae digon o deganau newydd ar gael i'r plant chwarae. Yn ogystal, caiff y rhieni baned a bisged a chaiff y plant ddiod ffrwythau! Mae hefyd yn sylfaen gwych ar gyfer y Cylch Meithrin sy'n cael ei gynnal gan Anti Rachael ac Anti Angharad drwy gyfrwng y Gymraeg. Y thema y tymor hwn yw Sali Mali. Bydd y Cylch hefyd yn cynnal nosweithiau i godi arian ar ei gyfer sy'n rhoi cyfle i'r rhieni gymdeithasu. Mae'r Cylch Meithrin yn cyfarfod yn Ystafelloedd yr Hen Eglwys, Heol y Parc, Radur o ddydd Llun i ddydd Iau ac mae'r Cylch Ti a Fi yno ar fore Gwener rhwng 9.15 a 10.45. Mae croeso cynnes i bawb.

hamddenol braf heb ofid yn y byd i lawr y pafin hyd yn oed.

Un peth arall sy'n unigryw am ein dinas yw y lefel o fudredd a sbwriel sy'n cael ei adael yn ein parciau a'n caeau chwarae ni, heb sôn am y strydoedd. 'Dwi heb weld hyn i'r fath raddau mewn unrhyw ddinas heb son am brifddinas Ewropeaidd arall!!

Lle wyt ti'n gweld dy hun mewn deng mlynedd?

Dylid cymryd un dydd ar y tro, dw'i ddim cweit yn siŵr be ' sy'n digwydd ddiwedd yr wythnos yma eto!!

Hysbysebu yn y Dinesydd

Tudalen Gyfan A4: £200
Hanner Tudalen A4: £110
Chwarter Tudalen A4: £60
Wythfed Tudalen A4: £35

Gosod taflen ar wahân
£100 - £250

Cysylltwch â
hysbysebu@dinesydd.com
neu Meleri Beynon,
Menter Caerdydd
029 20689888

www.dinesydd.com



menter caerdydd

www.mentercaerdydd.org

029 20 689 888

Cyfarfod Blynyddol

Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol nos Lun, 8 Tachwedd am 7.00yh yn Swyddfa Menter Caerdydd, 42 Lambourne Crescent, Parc Busnes Caerdydd, Llanishen.

Croeso i Shân

Croeso mawr i Shân Morgan sydd wedi ymuno â'r Fenter yn ddiweddar i hyrwyddo a chasglu aelodau newydd ar gyfer e@chlysur.

Cwis Tafarn y Mochyn Du

Fe fydd cwis nesaf y Fenter yn cael ei gynnal nos Sul, Hydref 31 am 8.00 yh yn y Mochyn Du. Croeso Calan Gaeaf i bawb!

Clybiau a Gweithgareddau Tymor yr Hydref

Mae cannoedd o blant eisioes wedi cofrestru yn ein clybiau wythnosol. Am wybodaeth lawn, ewch i'r wefan www.mentercaerdydd.org.

Cynlluniau Gofal Hanner Tymor yr Hydref

Cynhelir 3 Chynllun Gofal yn ystod wythnos Hanner Tymor yr Hydref yn Ysgol Treganna, Ysgol Melin Gruffydd ac Ysgol y Berllan Deg. I gofrestru, ac i sicrhau eich bod yn derbyn y ffurflenni mewn da bryd, cysylltwch â Meleri – meleri@mentercaerdydd.org neu ewch i'n gwefan.

Gweithgareddau Cynradd dros Hanner Tymor

Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys Dawns, Trampolin, Hwylfyrdio a Hwyllo, Gymnasteg, Lazer Tag ac Animeiddio. Fe fydd 2 ddiwrnod hwyl yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnos yn rhad ac am ddim.

Gweithgareddau Uwchradd Tymor yr Hydref

Croeso i aelodau newydd ymaelodi mewn clwb wythnosol (3 clwb yn cwrdd bellach) ar gyfer plant Blynyddoedd 7-10. Am fwy o fanylion gweler y wefan.

Gweithgareddau Uwchradd Hanner Tymor

Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal gweithgareddau amrywiol yn ystod hanner tymor eleni gan gynnwys Gweithdy Band yng Nghlwb Ifor Bach, Gig Dan Oed i blant 14+ fel rhan o Wyl Sŵn, a phrofiad y Brawd Mawr mewn lleoliad cyfrinachol i blant Blwyddyn 8.

Y Wladfa 'Goll'

Bûm yn y Wladfa am yr eildro fis Medi eleni, gan brofi'r gwanwyn yno'r tro hwn o'i gymharu â'r hydref pan oeddwn yno fis Ebrill y llynedd. Roedd y tywydd yn bur debyg y tro hwn, a dweud y gwir – yn heulog braf ar y cyfan, er bod y gwynt ychydig yn feinach. Ond yr oedd y croeso Patagonaidd yr un mor ddjarhebol o gynnes – a bonws ychwanegol eleni oedd cael gwyllo'r morfilod yn chwarae yn agos i'r lan ym Mhorth Madryn.

Prif ddioben yr ymweliad eleni, fel y llynedd, oedd meithrin cysylltiadau rhwng Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd (a'i Chanolfan Uwchfrydiau Cymry America yn enwedig) ag academyddion yn Ariannin, o dan gynllun a gefnogir gan Fanc Santander. Bu Dr Bill Jones, Walter Brooks a minnau yn darlithio mewn tair cynhadledd – un ar hunaniaethau Patagonia yng nghanen Comodoro Rivadavia o Brifysgol Genedlaethol Patagonia, un ar lenyddiaethau Patagonia yng nghanen y Brifysgol yn Nharelew, ac yna un yn benodol ar y Cymry ym Mhatagonia yn y gangen sydd ym Mhorth Madryn.

Braf hefyd oedd cael ymuno yng ngweithgareddau'r gymuned Gymreig. Dydd Sadwrn, 11 Medi, cynaliwyd Eisteddfod yr Ifainc yn y Gaiman, a dyma ni'n achub ar y cyfle i fynd yno. Dyna oedd profiad! Roedd tridiau o ragbrofion eisoes wedi rhagflaenu'r Eisteddfod, ac ymhell dros 2,000 yn cystadlu ynddynt; ac aeth yr Eisteddfod ei hun ymlaen tan wedi dau o'r gloch y bore! Yn Sbaeneg yr oedd y rhan fwyaf o'r cystadlu, ond cafwyd sawl cystadleuaeth adrodd a chanu Cymraeg, a goslef Sbaenaidd hudolus ar Gymraeg y plant. Profiad hynod hefyd oedd gwyllo Dawns y Blodau yng nghyffiniau'r paith! Yna, fore Sul, draw i gapel Bethel, Gaiman, i Gymanfa Ganu'r Ifainc, ac yn y prynhawn bûm yn arwain yr oedfa Gymraeg yno, a chymryd yn thema emynau taith Pantycelyn – gan fod teithio yn rhan mor amlwg o'r profiad Patagonaidd, heb sôn am ein profiad ninnau wrth gyrraedd yno!

Echlysur

Mae Menter Caerdydd yn darparu gwasanaeth ebost sy'n hyrwyddo gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg i oedolion a phlant yng Nghaerdydd. Gallwch elwa o wasanaeth e@chlysur trwy gofrestru eich manylion ar y linc isod yn rhad ac am ddim. Gallwch hefyd hysbysebu unrhyw ddigwyddiadau Cymraeg y byddwch yn eu trefnu ar e@chlysur.

Bydd y wybodaeth yn gyfrinachol ac yn eiddo i Fenter Caerdydd yn unig. <http://www.mentercaerdydd.org/>

Cawsom hefyd gyfle i ymweld â rhai cymunedau Cymreig nad ydynt ar gylchdaith arferol ymwelwyr o Gymru. Mae Cymdeithas Gymreig yn cwrdd yn rheolaidd yn Comodoro Rivadavia, dinas ddiwydiannol fawr ar lan y môr, dros 200 milltir i'r de o'r Wladfa 'wreiddiol' yn Nyffryn Camwy. Trefnwyd cyfarfod ganddynt i'n croesawu, a chafwyd noson hyfryd o gartrefol yn eu cwmni, a'u brwdfrydedd dros ddysgu Cymraeg a dawnsio gwerin Cymreig yn amlwg iawn.

Cawsom wahoddiad yn ogystal i ymweld â Chymdeithas Gymreig a sefydlwyd yn ddiweddar yn Sarmiento, tref mewn dyffryn eang yn y mynydd-dir i'r gorllewin o Comodoro, mewn ardal sy'n enwog am ei fforest betraidd ac esgryn deinosoriaid. Symudodd rhai Cymry i'r ardal honno tua dechrau'r ugeinfed ganrif i geisio sefydlu gwladfa arall yno, ond ni ddatblygodd fel y gwladychfeydd yn Nyffryn Camwy ac yn yr Andes; eto, braf iawn oedd cyfarfod â thua 25 o ddisgynyddion y Cymry, a oedd yn dangos diddordeb mawr yn eu gwreiddiau Cymreig ac yn llawn cwestiynau am Gymru.

Ni oedd y bobl gyntaf o Gymru i ymweld â'r Gymdeithas oddi ar iddi gael ei sefydlu, a chawsom dderbyniad tywysogaidd. Daeth maer y dref i'n croesawu'n swyddogol, a chawsom 'de Cymreig' i'w gofio, heb sôn am ymweld â'r amgueddfa leol, sy'n canolbwyntio ar y deinosoriaid ac ar y Brodorion gwreiddiol a'u traddodiadau, ac sy'n dangos y cydweithio agos a fu rhwng y Brodorion a'r gwladychwyr cynnar. Fel y dywedais, nid yw Sarmiento yn rhan o gylchdaith arferol ymwelwyr o Gymry, ond y mae'r wladfa 'goll' hon yn sicr yn haeddu cael ei hychwanegu ati!

E. Wyn James

Galw Corau Cymru

Cyhoeddodd S4C yn ddiweddar y bydd cystadleuaeth boblogaidd Côr Cymru yn dychwelyd yn 2011. Cynhelir y rowndiau cyn-derfynol ar benwythnos Mawrth 4ydd – 6ed 2011, a'r rownd derfynol ar Sul, Ebrill 10ed 2011 yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth. Bydd pob côr sy'n cyrraedd y rowndiau cyn-derfynol yn derbyn gwobr o £500 a bydd enillwyr y categorïau isod yn derbyn gwobr o £1,500, ac yn cystadlu yn erbyn ei gilydd am y teitl Côr Cymru 2011 a'r brif wobwr o £5,000. Bydd y corau'n cael ei recordio ar draws Cymru ym mis Tachwedd 2010, ac mae'r dyddiad cau am geisiadau ar Hydref 8ed. Mae pump categorï yn y gystadleuaeth, corau plant, ieuencid, merched, meibion a chymysg. Os am fwy o wybodaeth, ffoniwch Rondo ar 029 2022 3 4 5 6 neu ymweld â www.rondomedia.co.uk

Newyddion o'r Eglwysi

Ebeneser, Heol Siarl

Llongyfarchiadau

.. i Malcolm a Jean Thomas, Yr Eglwys Newydd, ar ddathlu eu priodas aur yn ystod mis Awst. Priodwyd hwy yng nghapel Bethesda'r Tymbl gan y Parch. Eurfyn Morgan.

...i Ceri a Iola Evans, Penylan, ar ddathlu eu priodas arian yn ystod yr haf. Buont yn dathlu yng Nghanaada.

...i Ffion O'Brien ar ei chanlyniadau lefel A. Mae yn awr am astudio Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd.

...i Lisa Mair Williams ar ennill gradd mewn economeg ym Mhrifysgol Caerfaddon ac ar ei phenodiad i swydd yn yr Academi.

...i Rob Lewis ar ei benodiad i swydd newydd fel Cadeirydd Price Waterhouse Coopers yng Nghymru a de Orllewin Lloegr. Pob dymuniad da hefyd i'r teulu yn eu cartref newydd yn Llandaf.

...i Dr Mari Lluon Thomas ar ennill gradd meddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd.

...a phob dymuniad da i Sandra Semmens ar ei hymddeoliad o Ysgol Melin Gruffydd.

...hefyd i Delyth Davies wrth iddi symud o Ysgol Plasmawr i Glantaf i ddysgu Cerneg. Er gadael bwch ym Mhlasmawr bydd Glantaf ar ei hennill. Pob dymuniad da iddi.

Clwb Ieuencid

Ail gychwynnodd y clwb ieuencid ar nos Wener, 17 Medi a daeth criw da at ei gilydd i fwynhau gemau a gweithgareddau amrywiol dan law Alaw Rowlands, sy'n aelod gweithgar a brwdfrydig yn ein plith. Cafodd y criw lot fawr iawn o hwyl ac maent eisoes yn edrych ymlaen at y cyfarfod nesaf ar 1 Hydref. Mae croeso i unrhyw un sy'n ddisgyblion yn unrhyw un o'n hysgolion uwchradd, ymuno yn yr hwyl.

Cyflwyno rhodd

Ar fore Sul 19 Medi cyflwynwyd llun o'r 'Wyddfa o Lyn Llydaw' gan yr arlunydd nid anenwog, Rob Piercey i Eynon Williams fel cydnabyddiaeth am ei waith diflino fel trysorydd dros y 30 mlynedd diwethaf. Mae Eynon yn ddiagon gweithgar ers 1979 hefyd ac yn barod iawn ei gymwynas. Ateb cyson Eynon yw 'aelod o dîm' yw a dim ond felly mae wedi llwyddo i wneud ei waith. Bydd yn parhau yn 'un o'r tîm', ond cymerodd Eilir Jones yr awenau ar ddechrau'r flwyddyn Pob dymuniad da iddo ef wrth



Minny Street

Babimini

Roedd bore Gwener, 16 Gorffennaf eleni yn fore cyffrous i rai o fabis Minny Street. Daeth criw bach ynghyd yn y festri i fwynhau awr neu ddwy yn rhannu teganau, bwyta danteithion iachus a chael hwyl a sbri yn sesiwn gyntaf un Babimini. Menter wythnosol newydd i ni fel eglws yw Babimini, lle caiff rhai o'n plant ieuengaf a'u rhieni neu ofalwyr gyfle i gymdeithasu gan ddod i adnabod ei gilydd yn well mewn awyrgylch groesawgar a chynnes. Mae croeso i deuluoedd alw heibio ar fore Gwener rhwng 9.45 a 11.15 (o 1 Hydref ymlaen).

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i'n haelod hynaf, Miss Gwyneth Morgan (Penylan) ar ddathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ym mis Medi.

Gŵyl Flynyddol Minny Street (Dydd Sul, 19 Medi)

Anerchiad y plant: I'r bin ai peidio?

Beth sydd gan frics, *Beibl, Caneuon Ffydd*, llond ces o arian papur, llun o deulu, ymbarél, croes, ffedog, siwmpwr ysgol a rhywbeth hen yn gyffredin? Wel, yn ôl ein Gweinidog yn ei anerchiad i'r plant, mae pob un yn cynrychioli syniadau pobl am yr hyn yw'r eglwys, ond gwaetha'r modd mae rhai ohonynt yn wirion. Wrth geisio creu llun o eglwys Iesu Grist ym Minny Street heddiw, taflwyd y brics, y llond ces o arian papur, yr hen beth, a'r ymbarél i'r bin! Beth oedd ar ôl? Llun o deulu, siwmpwr ysgol, ffedog, *Beibl, Caneuon*

iddo ymroi i'r gwaith.

Nosweithiau Pen Rwdan

Rwdan yw'r gair gogleddol am erfin/swede. Tarddiad y gair yw "root" yn Saesneg. Er y defnyddir yr idiom "pen rwdan" fel un i ddisgrifio rhywun twp fe'i defnyddir yng nghyd-destun y cyfarfodydd hyn i ddisgrifio pobl sydd am fynd at wreiddyn y pwnc. Y pwnc yn y cyfarfodydd hyn fydd ymestyn allan fel Cristnogion. Cynhaliwyd y noson gyntaf ar 23 Medi yng nghwmni Cynan Llwyd. Y pwnc oedd Diwylliant 2010. Mae croeso i unrhyw un ddod i'r cyfarfodydd hyn. Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan www.ebeneser.org sydd newydd gael ei hail lansio ar ei newydd wedd.

Ffydd a'r Groes. Dyma Minny Street heddiw - teulu'n addoli ac yn gwasanaethu gan ddysgu am Iesu a ganddo.

Homili: Llythyr Crist ydych chiwi... (2 Corinthiaid 3:3)

Efelychu nodweddion y llythyr inc araf, hen-ffasiwn - yn hytrach na'r neges destun swta gwta, yr e-bost mecanyddol oer neu'r alwad ffôn frysiog - oedd yr her i ni ym Minny Street wrth i ni ailgydio yn ein gwaith. Dywed y llythyr nad adeilad mo Minny Street, ond yn hytrach bobl dyner eu gweithredoedd a charedig eu geiriau. Dywed y llythyr mai tŷ cyfeillgarwch, tŷ rhyddid, tŷ llawenydd ydyw. Gweithio gyda'n gilydd i weld ffydd, gobaieth a chariad yn ffynnu yn ein plith yw her y llythyr.

Oedfa Hwyrrol

Croesawyd cyfeillion o eglwysi Cymraeg y ddinas i Oedfa Hwyrrol nos Sul, 10 Medi. Testun y Parchg Denzil John (Tabernacl) oedd brawddeg gyntaf Efengyl Marc: "Dechrau Efengyl Iesu Grist, Mab Duw." Yn dilyn seibiant yr haf, ei anogaeth oedd ein bod, wrth ddychwelyd, yn teithio ymlaen yng nghwmni Crist. Diolch iddo am ei neges.

Ymweliad â Choleg Iwerydd

Coleg chweched dosbarth i fyfyrwyr ar draws y byd i gyd yw Coleg Iwerydd. Saif ar lan y môr yn San Dunwyd ac mae'n lle hudol Hogwartaidd! Mae'r adran efrydiau allanol yn cynnig lle i oddeutu ugain aros yno am benwythnos a chymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Criw hyfryd aeth o PIMS (Pobl Ifanc Minny Street) yn amrywio mewn oed o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 12 (wnawn ni ddim crybwyll oed Owain a Lona!). Hyfrydwch bob amser yw gweld y rhain yn cydweithio gan anwybyddu oed, gwahanol ysgolion uwchradd a phersonoliaethau. Cafodd dau fach oed 8 a 9 sylw arbennig hefyd gan nifer o ffrindiau hŷn.

Yn ystod y penwythnos gwlychwyd nifer o weithiau - yn y pwll nofio tu fewn, wrth ganwio, a hefyd wrth neidio i bwl nofio tu allan rhewllyd tu hwnt! Gwthiwyd Owain i'r pwll gan Lona! Dysgwyd sut i sledio tywod ar dwyni Merthyr Mawr. Yn fwy na dim cafwyd amser i sgwrsio dros baned a phryd o fwyd, wrth olchi llestri a mynd ar daith, wrth wrando ar gerddoriaeth a cherdded i fyny am fwyd yn y coleg. Bydd croeso y flwyddyn nesa eto i Manon a Mareid, Ffion, Sioned, Enlli, Lleucu, Heledd a Shani; Gruffudd, Tomos, Daniel, Jac, Cai, Owain Ellis a Connor.

Salem Treganna

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i'r Parch. Dafydd Andrew Jones ar ei anrhydedd o dderbyn medal y canghellor, Prifysgol Morgannwg, am ei wasanaeth a'i gyfraniad i gymunedau Cymru.

Bedyddiadau

Bu sawl bedydd yn ystod y mis. Bedyddiwyd Efan a Nel, plant Nia ac Iolo, a Carys a Mari, plant Dafydd a Jess. Rydym yn dymuno'n dda iawn i chi.

Y Parch. Elfed ap Nefydd

Roeddem yn falch iawn i groesawu'r Parch. Elfed ap Nefydd atom yn ddiweddar. Bu ein meddyliau gyda'i deulu yn dilyn eu colled, a braf oedd cael ei gwmi.

Clwb y Bobl Ifanc

Daeth criw da a hwyliog o bobl ifanc ar ei gilydd nos Wener y 17eg o Fedi, er mwyn trefnu rhaglen ar gyfer y tymor.

Clwb Brecwast

Mae'r clwb wedi cyfarfod yn ystod y mis wedi'r haf, ac mae croeso i chi a'ch plant o dan oed meithrin gyfarfod â ni yn Salem am 9.45 – 11.15, dydd Mercher cyntaf y mis, a'r trydydd. Dewch i gymdeithasu ac i rannu profiadau!

Picnic

Cawsom bicnic llwyddiannus ym mharc Pontcanna ar y 19eg wedi'r oedfa, a braf oedd cael clonc er gwaetha'r gwynt oer!

Clwb Cerdded

Cyfarfu'r clwb am y tro olaf cyn y gaeaf ddydd Gwener y 24ain. Rydym wedi mwynhau teithiau cerdded hyfryd iawn dros dymor yr haf. Edrych mlaen at y flwyddyn nesa felly!

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i bob un o bobl ifanc Salem am wneud mor ardderchog yn yr arholiadau TGAU a Safon Uwch eleni. Rydym yn falch iawn ohonoch ac yn dymuno'n dda iawn wrth i nifer ohonoch fynd i'r colegau yn yr wythnosau nesaf.

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo'n fawr â Rhian Clarke, sydd wedi colli ei thad yn ddiweddar, ag Elin Edwards sydd wedi colli ei thad, a Sioned Roberts, sydd wedi colli ei thad. Rydym yn meddwl amdanoch ac yn anfon ein cydymdeimlad cynhesaf.

Tabernacl, Yr Ais

Genedigaeth

Estynnwn ein llongyfarchiadau i Julie a Meurn Hughes ar enedigaeth Dewi Rhys ym mis Awst. Mae nifer wyrion Delun a John Callow wedi dyblu yng nghorff y flwyddyn gan ychwanegu'n sylweddol at eu llawenydd yn sicr.

Cydymdeimlo

Cofiw'n dyner am Mrs Heulwen Davies, mam Calan a Malcolm McGreevy a nain annwyl i Angharad a Delyth. Cynhaliwyd ei hangladd ym Mhorthcawl, ac mae'n braf deall i nifer o blith aelodau'r Tabernacl lwyddo i fod yno.

Ysgol Sul

'Roedd yr Ysgol Sul wedi ail-gydio yn ei rhaglen waith fis Medi, ac mae'n braf nodi bod yr un grŵp o athrawon yn barod i groesawu disgyblion hen a newydd. Diolch iddynt am eu parodrwydd, ac i Nia McVeigh a Gwenllïan yn arbennig am gydsynio gyda'n cais iddynt barhau gyda'u cyfrifoldebau fel arolygwyr. Cytunodd Mair Long i weithredu fel trefnydd oedfaon arbennig, a'r gweinidog i weithredu fel trefnydd siaradwyr oedfaon teulu cyntaf y mis.

Bore Coffi

Diolch i Eluned Owen Rook am ei chroeso i'r cyfeillion a ddaeth ynghyd yn ystod mis Awst. Cafwyd yr un croeso cynnes gan Gill a John Thomas ym Mhenarth ym mis Medi.

Lesotho

Aeth nifer helaeth draw i Fae Langland ddiweddi y mis i rannu cinio a baratowyd gan Margaret a Howard Evans. 'Roedd yn achlysur arbennig – y cwmi, y bwyd a'r olygfa o'u tŷ yn wych. Casglwyd £380 tuag at Gronfa Lesotho.

Datganiad gan Huw Tregelles yn ail-lansio'r organ

Daw cyfnod o ymdopi ag organ oedd yn ebychu neu wichian yng nghanol emyn ac weithiau'n pallu yn llwyr, i ben i'r organyddion ddechrau mis Hydref. Adnewyddwyd yr organ yn llwyr ar gost o £100,000 gan yr arbenigwyr organ byd-enwog, Henry Willis a'i Feibion, o Lerpwl. Bwriedir i'r organ fawr 103 oed gael ei dadorchuddio yn ei holl ogoniant mewn datganiad gan Huw Tregelles Williams nos Sul, 3 Hydref am 8.00. Rhodd i'r eglwys yn 1907 oedd yr organ gan Arglwydd Tredegar, un o aelodau'r

Bethel, Rhiwbeina

Yn ystod y Cwrdd Diolchgarwch derbyniwyd rhoddion o wahanol fwydydd i'w hanfon i'r plant a'r oedolion anghenus yn Rwmania. Diolchodd y Gweinidog, y Parchedig T. Evan Morgan i bawb am eu cyfraniadau. Cyn diwedd y flwyddyn bydd dwy ar bymtheg o lorïau 'Ymgyrch Rwmania' wedi teithio i'r wlad yn llawn nwyddau o ardal Caerdydd.

Salmau Cân oedd testun anerchiad y Parchedig Gwynn ap Gwilym ym Methel ddechrau Medi. Trefnwyd y cyfarfod gan Eglwys Cymraeg Caerdydd.

Yr Eglwys Efengylaidd

Gymraeg

Ydych chi erioed wedi dychmygu eich bod yn eistedd ar ben eich hun, ar draeth melyn, a'r haul yn gwenu gydag ond sisial y tonnau i'w glywed? Gallwn ni ddim cynnig hynny i chi, ond fe allwn ni gynnig awr o dawelwch heb y plant bob nos Lun! Rydym fel eglwys yn cynnal clwb plant bob nos Lun yn ystod tymor yr ysgol. Mae'r clwb yn dechrau am 5:30 ac yn gorffen am 6:30, ac yn cael ei gynnal yn Ysgol Melin Gruffydd yn yr Eglwys Newydd. Os ydych chi'n adnabod plant sy'n yr ysgol gynradd, ac sy'n 5 oed neu'n hŷn, Clwb yr Hapus Awr yw'r clwb iddyn nhw. Rydym yn chwarae pêl-droed, gemau gwirion, crefft - i enwi dim ond ychydig o'r gweithgareddau. Yn ogystal bob wythnos, cawn gyfle i edrych ar storïau o'r Beibl – ac mae'r plant wrth eu bodd! Mae hanesion y Beibl yr un mor gyfoes heddiw ag a fuon nhw erioed. Felly bob nos Lun beth am awr fach o dawelwch? Rhowch y tegell ymlaen, cymerwch y bisgedi wnaethoch chi guddio o olwg y plant – a mwynhewch ddistawrwydd Clwb yr Hapus Awr tra ein bod ni'n mwynhau gyda'r plant. (Mae croeso i chi ffonio Trystan, 07853199562 am fwy o wybodaeth.)

eglwys bryd hynny.

Treuliodd yr eglwys y ddwy flynedd diwethaf yn codi arian tuag at y costau, a bydd unrhyw elw'r cyngerdd hefyd yn cyfrannu tuag at dalu'r bil. Bydd y datganiad yn cynnwys y darn 'Dathliad Tabernacl' a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur gan y cyfansoddwr Richard Elfyn, sy'n uwch ddarlithydd yn Ysgol Gerdd Prifysgol Caerdydd. Bydd Côr Meibion Tâf hefyd yn cymryd rhan.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â'r canlynol:

teulu'r diweddar T. Gwynn Hughes y Barri a fu farw yn ysbyty'r dre. Bu'r angladd yng Nghapel y Tabernacl, y Barri, ac yna Amlogfa Llangrallo 11 Awst:

teulu'r diweddar Margaret Parry, Dinas Powys, a fu farw'n sydyn yn Ysbyty Llandochau 5 Awst. Bu'r angladd yn Eglwys y Crwys, Caerdydd, ac yna ym mynwent Eglwys St Andreas, Dinas Powys, 20 Awst:

teulu'r diweddar Elsie Avery, y Barri, a fu farw'n dawel yn ei chartref 13 Awst. Wedi gwasanaeth preifat yn yr Amlogfa, cafwyd gwasanaeth o ddiolch am ei bywyd yng Nghapel y Tabernacl, y Barri, 23 Awst:

teulu'r diweddar Gethin Glyn Edwards, 28 oed, a fu farw'n dawel yn ei gartref yn y Caerau, Caerdydd, 15 Awst. Bu'r angladd yng Nghapel Tabernacl, Dolgellau, ac yna ym mynwent y dref 19 Awst:

Tanni Grey Thomson a'i chwaer Siân a'u teuluoedd ar farwolaeth eu tad, Peter Grey, yn Ysbyty'r Brifysgol 22 Awst. Cynhaliwyd angladd preifat i'r teulu yn unig yng Nghaerdydd.

teulu Owen Edwards, a fu farw yn ei gartref yn Llandaf 31 Awst ar ôl dioddef yn hir o glefyd Parkinsons. Cynhaliwyd ei angladd yng Nghapel Bethel, Penarth, ac yna yn Amlogfa'r Ddraenen 17 Medi.

Eglwys y Crwys

Cydymdeimlad

Wedi cystudd hir collwyd o'n plith Mrs Non Owen. Bydd y cof am Non yn ein hatgoffa am ei hanwyldeb a'i sirioldeb naturiol. Cydymdeimlir yn ddwys iawn gydag Arwel, Rhys a Llywd a'u teuluoedd.

Cyfarfod Blynyddol

Cyfarfu pwyllgor blynyddol Cwmni Drama y Crwys ar Nos Fercher Medi 15fed i drafod y cynrychiadau nesaf ar raglen gaeaf y Cwmni. Bwriedir cynhyrchu dwy ddrama fer o hyn i'r Nadolig ac yna'r ddrama 'Neb o Ddyn' a fydd yn ein harwain mewn myfyrdod at arwyddocâd tymor Y Pasg.

Eglwys Dewi Sant

Gwibdaith

Wrth i ni ffarwelio â'r Haf mae'n braf dwyn i gof y wibdaith i Eglwys Gadeiriol Aberhonddu ganol mis Awst. Cawsom ein tywys o gwmpas yr Eglwys, sydd mewn man tawel uwchlaw'r dref. Adeilad syml a golau yw'r Gadeirlan wedi'i hamgylchynu gan adeiladau hardd 'Clos y Gadeirlan'.

Ar ôl crwydro o gwmpas y dref am awr, aethom yn ein blaenau i Abercraf lle cawsom swper blasus. Diolch yn fawr i Gwenda Williams am drefnu'r cyfan.

Barbeciw

Ddechrau Medi cynhaliwyd barbeciw yng ngardd Judith a Simon Poulson yn Rhiwbeina. Daeth nifer dda ynghyd ar brynawn braf a chodwyd £400 ar gyfer Cronfa Atgyweirio'r Eglwys.

Datganiad Organ

Cafwyd datganiad awr ginio gan Huw Tregelles Williams ddechrau Medi a pherfformiwyd deuwadaw gan Robert Court a Jeffrey Howard mewn cyngerdd arall. Trefnwyd y ddau ddatganiad gan Ddigiwyddiadau Organ Caerdydd a daeth cynulleidfâ luosog i'w mwynhau.

Bedydd Esgob

Gweinyddwyd y gwasanaeth pwysig hwn nos Sul, Medi'r 19eg gan Archesgob Cymru, y Parchedig Ddr. Barry Morgan, Esgob Llandaf, yn cael ei gynorthwyo gan y Ficer, y Parchedig Hywel Davies a'r Parchedig Athro Tomos Watkin.

Yn ystod y gwasanaeth bedyddiwyd Martin Rhisiart ac wedyn conffirmiwyd ef a phump arall, sef Elena Rhisiart, Carys Wyn Amos, Haf Davies, Catrin Davies a Hannah Watkin. Traddodwyd y bregeth gan yr Archesgob ac roedd ei neges yn bwrpasol iawn. Canodd y côr "Panis Angelicus" dan arweiniad Ieuan Jones. Roedd teuluoedd a ffrindiau'r ymgeiswyr wedi dod i'w cefnogi a darparwyd lluniaeth i bawb yn Neuadd yr Eglwys.

Bedyddio

Bedyddiwyd Harri John, mab Hannah a Rhys Jones ym mis Awst. Ar Fedi 19eg, bedyddiwyd Lenny Jac, mab Mererid a Steven Jones.

Llongyfarchiadau

i Rhun a Magda ap Rhobert ar enedigaeth eu mab, Ioan Rhun

i Geraint Roberts a Siân Alaw Griffiths ar achlysur eu priodas ddechrau Medi.

Cyfeillion Carnhuanawc

Taith Gogledd Iwerddon

Mewn llai nac awr o Faes Awyr Caerdydd roedd Cyfeillion Carnhuanawc, dan arweiniad Keith Bush, wedi cyrraedd Belfast. Braf pan gyraeddasom oedd cwrdd â'n hen gyfeillion, Hywel ac Almut Davies, a ymunodd â ni.

Taith fu hon a roddodd inni flas o hen hanes, a hanes diweddar Iwerddon ac a agorodd ein llygaid i harddwch naturiol y wlad.

Mae i bob taith ei huchelfannau. Cerdded llwybr arfordirol a cholofnau basalt Sarn y Cewri'n ein hamgylchynu, oedd un o'r rhain. Golygfa arall saeriniwyd ar fy nghof oedd yr olygfa odidog o ben caer Oes y Cerrig, Grianan Aileach - Loch Sweeney oddi tanom a phenrhyn Innishowen ar y gorwel.

Profiad cofiadwy oedd eistedd ar grwyn anifeiliaid yng nghartref y cyfarwydd ffraeth yn adrodd ei stori yn Emain Macha, ger Armagh, cartref Uwch Frenhinoedd a Breninesau Ulster Geltaidd Oes yr Haearn.

Mwynder Maldwyn yn dod i'r meddwl wrth deithio drwy dirwedd "baged o wyau" fel y'i gelwir yn ardal Downpatrick ar y ffordd i ymweld â beddrod honedig Padrig Sant yng Nghadeirlan Down.

Cerdded mur y dref yn Deri a gwerthfawrogi'r olygfa hyfryd o'r afon Foyle cyn ymweld ag arddangosfa o wrhydri'r *Apprentice Boys* yn y Neuadd Oren ac yna yn y prynhawn cael ein tywys o gwmpas arddangosfa o furluniau yn Y Bogside gan dywysydd hynaws arall, y ddau yn cyfaddef y cymerai genedlaethau i'r ddwy ochr gymodi.

Wedi taith o gwmpas adeilad ysblennydd Senedd Stormont ein gobaith ni oll y byddai ganddi'r grym i gadw'r heddwch yn Ulster.

Catherine Jobbins

Diolch

Dymuna Arwel a'r teulu ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad wedi marwolaeth Non. Roedd pob carden, llythyr, galwad ffôn ac ymweliad, pob blodyn a chacen yn therapi. Diolch yn fawr iawn, Arwel Owen a'r teulu.



Archesgob Cymru a ficer Eglwys Dewi Sant gyda'r ymgeiswyr am Fedydd Esgob



Meibion Plas Mawr (stori tudalen 14)



Daeth Stephen Jones, y chwaraewr rygbi rhyngwladol, i agor uned newydd yng Nghanolfan Milfeddygol Pentwyn ym mis Awst. Mae'r ddarpariaeth newydd yn galluogi'r meddygfa i gadw cŵn a chathod ar wahan mewn lleoedd gwahanol yn yr adeilad.

Mae hefyd yn bosib gwneud apwyntiad i weld milfeddyg neu nyrs trwy gyfrwng y Gymraeg.



Thear y Crwys yng nghanol y ddrama gomedi (gweler tudalen 1)



Cyfeillion Carnhuanawc yn edmygu murlun

Clwb Gwawr Caerdydd



Aelodau Clwb Gwawr Caerdydd yn ceisio dyfalu blas gwahanol fwydydd a diodydd

Cafodd Clwb Gwawr Caerdydd gychwyn bywiog iawn i'r tymor eleni gyda'r noson agoriadol ym mis Medi. Roedd y noson yn Nhafarn y Cricketters Heol y Gadeirlan, Caerdydd yn gyfle i gyfarfod ag aelodau newydd a chymdeithasu drwy amrywiol weithgareddau. Roedd 'na gwis lluniau, cwis cerddoriaeth, sudoku a chyfle i adnabod blas siocled, creision a dŵr heb son am geisio gosod hoelion i gydbwysu ar un hoelen - tasg a lwyddodd i herio'r aelodau!!! Mae rhaglen y flwyddyn yn edrych yn amrywiol - o wneud gemwaith i ddawnsio a chreu sushi, i helpa drysor, bbq a thaith siopa. Am fanylion cysylltwch â clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com neu ein tudalen Facebook: clwbgwawrcaerdydd neu Twitter clwbgwawrcdydd.

Llyfrau'r mis

Yr Argraff Gyntaf

Nofel yw hon gan Ifan Morgan Jones, enillydd Gwobr Goffa Daniel Owen 2008. Caerdydd yn 1927 yw lleoliad y stori, sef yr wythnos yr oedd y brenin yn mynd i agor yr Amgueddfa Genedlaethol, a'r clwb pêl-droed ar ei ffordd i Wembley. Ond pan gaiff golygydd y papur newydd lleol ei lofruddio, mae'r ditectif o'r Ariannin, Enoch Jones, a oedd yn y ddinas ar ei wyliau, yn gweld gwlad ei dadau yn troi'n hunllef. Cyhoeddir y nofel gan Y Lolfa am £7.95.

Detholiad o Emynau Iolo Morganwg

Cyfansoddodd yr athrylith hwnnw Iolo Morganwg tua tair mil o emynau! Yn y detholiad hwn gan Cathryn A. Charnell-White cawn olwg ar 240 ohonynt. Cofnododd Iolo hwy yn daclus, gan addurno ambell ddalen â darlun o flodyn neu blanhigyn. Dyma ddadorchuddio trysorfa a fu yn guddiedig rhag y mwyafrif ohonom, a bydd newydd-deb y cerddi crefyddol hyn yn sicr o swyno pawb sydd yn gwerthfawrogi ein traddodiad emynyddol. Cyhoeddir gan Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru am £14.

Hyd Eithaf y Ddaear

Dyma lyfr fydd o ddiddordeb i unrhyw un sy'n ymddiddori yn hanes y Wladfa. Cyfrol yw hon o atgofion Mair Davies (1935-2009), brodor o ardal Llandysul, a fu'n genhades yn y Wladfa am dros 45 o flynyddoedd. Mae *Hyd Eithaf y Ddaear* hefyd yn cynnwys teyrngedau i'r genhades. Golygwyd y gyfrol gan Gwen Emyr, Caerdydd, a ymwelodd â'r Wladfa yn 2002 a 2009 er mwyn dysgu mwy am waith Mair Davies. Cyhoeddir y llyfr gan Wasg y Bwthyn am £7.95.

**ANGEN SYMUD I FYW
O GAERDYDD I
OGLEDD-DDWYRAIN CYMRU?**

**Tŷ ar werth yn Sir y Fflint:
4 llofft, garej ddwbl, gardd**

**Barod i drafod cyfnwied am dŷ o'r
un maint neu lai yn ardal Caerdydd
(01352) 758895 / 07800 558996
neu: ha.fan@virgin.net**

Meibion Plasmawr

Gwelwyd dechrau ar gyfnod newydd yn hanes rygbi Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, y Tyllgoed, pan ffurfiwyd Meibion Plasmawr yn ddiweddar. Tîm 7 bob ochr o gyn-ddisgyblion yw'r Meibion sydd wedi profi cryn dipyn o lwyddiant dros gyfnod byr o amser.

Y twrnament cyntaf i'r Meibion gystadlu ynddo oedd Twrnament 7 bob ochr Aberystwyth ym mis Mai lle y curon nhw un o'r ffefrynnau, y Thundercats, yn y chwarteri. Tîm yw'r rhain sydd â chymysgedd o chwaraewyr y Gynghrair Gymreig a Chynghrair Pencampwriaeth RFU Lloegr. Yn anffodus, colli oedd hanes y tîm yn y rownd derfynol yn erbyn y Swansea Warriors o dan arweiniad Ricky Thomas o dîm 7 bob ochr rhyngwladol Cymru.

Y cam nesaf yn eu hanes oedd twrnament 7 bob ochr Penarth lle y collon nhw yn y chwarteri i dîm Clwb Rygbi Caerdydd mewn gêm agos 14-7. Yn dilyn hynny, teithiodd y Meibion i'r gorllewin i gystadlu yn nhwrnament 7 bob ochr Penfro. Gan ailadrodd eu hanes yn Aberystwyth, fe gollon nhw eto yn y gêm derfynol i'r tîm lleol, Crymch, ond nid cyn curo tîm y Sgarlets, o dan arweiniad Josh Turnbull, mewn gêm hynod o gorfforol.

Er iddyn nhw guro digonedd o dimoedd da yn y 'West Country 7s' yn Keynsham, gan gynnwys tîm yr Army Artillery, roedd yr Otters o Loughborough yn rhy gryf i'w goresgyn yn y rownd gynderfynol, gyda chwaraewyr rhyngwladol yn eu plith.

Pan oedd y tymor yn edrych fel petai'n mynd i orffen ar nodyn isel, derbyniodd y tîm wahoddiad i gystadlu yn y 'Sons of Serevi 7s' yn Ngogledd Llandaf. Mae'n deg dweud eu bod wedi chwarae eu gêm orau ers sefydlu'r tîm yn erbyn enillwyr 2008/2009, y Godfathers, yn y gêm olaf. Yn y gorffennol, mae chwaraewyr rhyngwladol fel Pat Sanderson wedi chwarae dros y Godfathers, a nhw oedd y tîm i guro ar y diwrnod. Yn ffodus, Meibion Plasmawr oedd yn fuddugol o saith cais i ddau. Roedd y fuddugoliaeth hyd yn oed yn fwy melys gan fod Pennaeth Ysgol Gyfun Plasmawr, Mr John Hayes (a ddsygodd y rhan fwyaf o'r chwaraewyr) yn eu gwyllo.

Dywedodd Rhys Morgan, mewnwr y tîm, a adawodd Plasmawr eleni, "Mae'n deimlad arbennig i chwarae gyda bechgyn na fyddwn i erioed wedi cael y siawns i chwarae gyda nhw yn yr ysgol, naill ai achos eu bod nhw'n hŷn neu'n iau na fi. Rydyn ni'n gweld cystadlu dan faner Meibion Plasmawr fel

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Chweched Dosbarth

Llongyfarchiadau mawr i bawb ym mlwyddyn 12 a 13 ar eu canlyniadau UG ac Uwch. Gweithiodd pawb yn ddyfal tuag at y Fagloriaeth Gymreig a braf oedd gweld chwedeg pedwar yn llwyddo i basio'r cymhwyster. Hoffem ddymuno'n dda i bawb wrth iddynt ddechrau ar yrfa newydd yn y brifysgol. Braf yw gweld cynifer o'n myfyrwyr yn aros yng Nghymru eleni ac eraill wedi penderfynu ehangu eu gorwelion dros y ffin megis Caeredin, Rhydychen, Bryste a Llundain. Pob hwyl i bawb.

Pleser oedd gweld ymroddiad nifer fawr o'r chweched yng ngweithgareddau'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nglynebwy. Llongyfarchwn yn arbennig ddau o aelodau'r ysgol, Gruffydd Evans a Jams Powys a oedd yn rhan o Gwmni Theatr Ieuencid Cymru.

Bu dechrau'r tymor yn un gweithgar i swyddogion y chweched wrth iddynt godi arian i apêl Pacistan a'u hymweliad â Llangrannog gyda Blwyddyn 7.

bod yn ffyddlon i arwyddair yr ysgol 'Gwinllan a roddwyd i ni'. Rydyn ni'n bendant yn mynd i adeiladu ar lwyddiant eleni y tymor nesaf.



**Asiantaeth
Cyflenwi
Athrawon**



Os ydych yn Athro Cynradd neu Uwchradd, Cynorthwydd Dysgu neu Ysgrifennydd Ysgol gallwn gynnig:

Gwaith Rheolaidd

•

Amserlenni a dyddiadur ar-lein

•

Cyfraddau dyddiol cystadleuol

•

Lwfans Teithio a Chinio

Gwe: www.bayresourcing.com Ebst: info@bayresourcing.com
Ffôn: 02920 494560
Cyfeiriad: 127 Bute St, Bae Caerdydd, CF10 5LE



Calendr y Dinesydd

Mawrth, 5 Hydref

Noson agoriadol cyfarfod misol sy'n trafod cynnyrch llenyddol Eisteddfod Genedlaethol 2010. Yn festri capel Tonyfelin, Caerffili, am 7.00pm. (Bydd chwe chyfarfod dros fisoedd y gaeaf.) Manylion pellach: Dr E. Wyn James 029-2062-8754; JamesEW@caerdydd.ac.uk. Mae nifer o aelodau'r dosbarth yn dod o Gaerdydd – croeso i ragor!

Mercher, 6 Hydref

Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Dillad a Fu.' Sgwrs gan Megan Morris, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

Mercher, 6 Hydref

Merched y Wawr Bro Radur. 'Crochenwaith De Cymru.' Sgwrs gan Ieuan Evans, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

Llun, 11 Hydref

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Darlith gan Wiliam Roger Jones ar y testun 'Huw Griffith a'r Oscar', yng nghapel Bethany am 7.30pm.

Llun, 11 Hydref

Merched y Wawr, Cangen y Bont-faen. Noson yng nghwmni Dafydd James, yn Neuadd y Groes-goch, Y Bont-faen, am 7.30pm.

Mawrth, 12 Hydref

Merched y Wawr Caerdydd. 'Dillad a Fu.' Sgwrs gan Megan Morris, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30pm.

Sadwrn, 16 Hydref

Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Angharad Ellis ar 'Y Lladin a'r Gymraeg' am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efynglaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.

Llun, 18 Hydref

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'Peirianeg Meinweol.' Sgwrs gan Arwyn Tomos Jones (Prifysgol Caerdydd). Yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

Mercher, 20 Hydref

Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Taith i Arddgoed, Westonbirt.

Iau, 21 Hydref

Cylch Ciniio Merched Caerdydd yng Nghlwb Golff Radur am 7.30pm. Gŵr gwadd: Delwyn Siôn. Croeso i aelodau newydd.

Gwener, 22 Hydref

Cylch Llyfryddol Caerdydd. Y Prifardd Glenys M. Roberts yn trafod Cerddi'r Goron 2010, yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd yr Academi.

Gwener, 22 Hydref

'Dan Oed.' Noson o gerddoriaeth fyw Gymraeg i bobl 14-18 oed yn Neuadd Gerddoriaeth y Mileniwm, Plaza y Mileniwm, rhwng 7.00pm a 10.30pm. Pris: £6 o flaen llaw / £8 ar y drws. Tocynnau ar werth ar www.sadwrn.com ac o siop recordiau Spillers, 30 Arcêd Morgan, Caerdydd.

Mawrth, 26 Hydref

'Adloniant Caerdydd.' Noson i ddathlu diwylliant a thraddodiadau Cymreig, yn cynnwys perfformiadau byw cerddorol, dan nawdd y Mudiad Ysgolion Meithrin a Chymraeg i Oedolion, yn Buffalo Bar, Windsor Place, o 6.00pm ymlaen. Mynediad am ddim. Manylion pellach: Wyn Williams (wyn.williams@mym.co.uk; 0779 294 8429). Cynhelir 'Cynhadledd Caerdydd' i staff y Cylchoedd Meithrin a'u pwyllgorau am 6.00pm.

Sadwrn, 30 Hydref

Côr Philharmonig Caerdydd yn perfformio Offeren 'Nelson' gan Haydn a 'Missa Brevis' gan Mozart yn Neuadd Gyngerdd Prifysgol Caerdydd, Heol Corbett, am 7.30pm.

Llun, 1 Tachwedd

Cylch Ciniio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty Churchills am 7.30 pm. Siaradwr: Gareth Charles (BBC Cymru). Manylion pellach: Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

Mercher, 3 Tachwedd

Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Ffin a Ffynnon.' Sgwrs gan Carys Tudor Williams yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

Mercher, 3 Tachwedd

Merched y Wawr Bro Radur. 'Harddwch a Holistiaeth.' Sgwrs gan Sioned Bryant, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

Gwener, 5 Tachwedd

Cymrodorion Caerdydd. 'Hanes a Chynnwys Casgliad Llyfrau Prin Dinas Caerdydd.' Cyflwyniad gan Peter Keelan a chyfle i weld rhai o'r trysorau dan sylw. Yn Ystafell y Casgliadau Arbennig ac Archifau sydd ar lawr gwaelod Llyfrgell y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd, Heol Corbett, am 7.00 pm.

Gwener, 5 Tachwedd

Cymdeithas Carnhuanawc. Ciniio yng Ngwesty Churchills, 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Siaradwr gwadd: Yr Archdderwydd, T. James Jones. Manylion pellach: Nans Couch (029-2075-3625) neu Catherine Jobbins (029-2062-3275).

Sadwrn, 6 Tachwedd

Cyngerdd gyda Côrddydd a'u gwesteion arbennig, Cywair a Chôr Bach Abertawe o dan faton Eric Whitacre, y cyfansoddwr o'r Unol Daleithiau, yn Neuadd Hoddinott, Bae Caerdydd am 8.00pm. Tocynnau o Ganolfan y Mileniwm.

Llun, 8 Tachwedd

Merched y Wawr, Cangen y Bont-faen. Sgwrs gan Wil Morris Jones am Bangla Cymru, yn Neuadd y Groes-goch, Y Bont-faen, am 7.30pm.

Mawrth, 9 Tachwedd

Merched y Wawr Caerdydd. Sgwrs gan Walter Brooks am Batagonia, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30pm.

Mercher, 10 Tachwedd

Cylch Cadwgan. Lowri Roberts yn siarad ar y testun 'Canu Clod y Campau', yn festri Bethlehem, Gwaelod y Garth am 8.00pm. Cydnabyddir cefnogaeth yr Academi Gymreig.

Iau, 11 Tachwedd

Cyngor Eglwys Cymraeg Caerdydd.

Merched y Wawr Caerdydd.

Nos Fawrth Medi 14 agorodd Merched y Wawr dymor gweithgareddau'r Gaeaf. Traddododd y Dr John Davies ddarlith ar dwf a datblygiad Caerdydd. Datblygodd o fod yn un o fân drefi Cymru, gyda thwf sylweddol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nes cyrraedd ei statws presennol. Ni enillodd y blaen ar Abertawe, Merthyr na Chasnewydd nes i'r Biwtiaid feddiannu'r tir a'r castell. Unwaith y daeth i'w hoed ymaflodd hefyd yn ei Chymreictod, ac yn 1905 fe'i dyrchafwyd yn ddinas yn unig am ei bod yng Nghymru. Yn 1955 daeth yn brifddinas y wlad gydag amryw o sefydliadau cenedlaethol.

Cyflwynwyd Dr Davies gan y Parch Lona Roberts a diolchwyd iddo gan Mrs Shân Morgan. Recordiwyd ychydig o'r ddarlith hefyd gogyfer â 'Diwrnod ym Mywyd Caerdydd'.

Cyfarfod Heddwch, yng nghapel Ebeneser am 7.30pm.

Llun, 15 Tachwedd

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson yng nghwmni John Rowlands, yng nghapel Bethany am 7.30pm.

Llun, 15 Tachwedd

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

Mercher, 17 Tachwedd

Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Clonc a Chân yng nghwmni Glyn Evans, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

Gwener, 19 Tachwedd

Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Dr Eurwyn Wiliam ar y testun 'Celfi Brynmawr: Arbrawf Cymdeithasol y Crynwyr, 1928-40', yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd yr Academi.

Sadwrn, 20 Tachwedd

Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Arfon Jones ar y testun 'Beibl.net' am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efynglaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.

Gwener-Sadwrn, 26-27 Tachwedd

Theatr Bara Caws yn cyflwyno'r ddrama '100' (addasiad Elin Jones o waith Neil Monaghan, Diene Petherle a Christopher Heimann), yng Nghanolfan Chapter am 7.30pm. Tocynnau: 029-2030-4400.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; ebost:

JamesEW@caerdydd.ac.uk).



Yn dilyn sawl gêm gyfeillgar yn erbyn timau o safon uwch, mae'r tymor wedi dechrau'n llwyddiannus i dîm cyntaf Clwb Cymric gan ennill y tair gêm gyntaf yn erbyn Cwrt y Vil, St. Patricks a Corries Glyncoed. Dechrau braidd yn siomedig mae'r ail dîm wedi cael hyd yma gan golli gemau clos yn erbyn Rovers Caerdydd, Trelai a Gleision yr Eglwys Newydd ond bu buddugoliaeth yn erbyn y Villa yng nghwpan yr Arglwydd Ninian Stuart.

Nod y tîm cyntaf y tymor hwn yw esgyn i gynghrair Amateur neu Uwch De Cymru ac mae trafodaethau dros yr haf wedi sicrhau cytundeb rhannu cae gyda chlwb Caerau Ely o Gynghrair Cymru. Mi ddylai'r cytundeb hwn ateb gofynion cae a chyflusterau Cymdeithas Pêl-droed De Cymru a'r gynghrair uwch sydd yn angenrheidiol cyn gallu esgyn. Er cael cae newydd, bydd y clwb yn parhau i ddechredu i'r cartref ysbrydol, tafarn y Mochyn Du, yn dilyn eu holl gemau i drafod hynt a helynt gemau'r dydd.

Yn anffodus mae costau rhedeg dau dîm wedi codi dros y tymhorau diwethaf a bydd cost y cae newydd yn strae'n ychwanegol. Mae gan y clwb eisoes gynllun Debyd Uniongyrchol i alluogi'r aelodau presennol (a rhai cyn aelodau) i dalu yn fisol i'r clwb ond rydym yn chwilio am noddwyr newydd a hefyd am ffyrdd gwahanol o godi arian er mwyn sicrhau datblygiad a dyfodol y clwb. Hoffem weld cyswllt gyda busnesau lleol megis ein noddwyr presennol sef y Mochyn Du, Asbri Golff a CPS Homes. Mae'r clwb yn ddiweddar wedi lansio gwefan broffesiynol newydd (www.clwbcymric.com) lle mae'n bosib hysbysebu a hefyd cadw mewn cysylltiad â'r clwb.

Mae Clwb Cymric hefyd yn ceisio cryfhau'r cysylltiad gyda chyn-chwaraewyr ac wedi sefydlu Cymdeithas Cyn-chwaraewyr lle mae modd dilyn y clwb a derbyn tei swyddogol, copi o gylch lythyr rheolaidd a hefyd gwahoddiad i holl gemau, digwyddiadau a chinio Nadolig ar ddiwedd y tymor.

Bydd sesiynau ymarfer wythnosol yn dechrau nos Lun Medi 27ain ar gae astroturf Lecwydd ac mae croeso i unrhyw chwaraewr newydd (neu hen) ymuno â'r hwyl!

Os oes gennych ddi-ddordeb chwarae, noddi neu ymuno â Chymdeithas Cyn-chwaraewyr Clwb Cymric cysylltwch gyda'r Ysgrifennydd, Rhys Meilir drwy'r cyfeiriad e-bost canlynol: clwbcymric@hotmail.com neu'r wefan newydd www.clwbcymric.com.



Ysgol Gyfun Bro Morgannwg yn cyflawni Her y Tri Chopa

Cynhadledd Morwrol

Cynhelir cynhadledd hanes ar y thema 'Cymru, Casnewydd a'r Môr' ar benwythnos Tachwedd 13-14, 2010. Bore dydd Sadwrn cynhelir darlithoedd ar amrywiol bynciau morwrol gan arbenigwyr yn y maes a bydd cinio bwffe ar gael. Bydd mynediad am ddim i weithgareddau brynhawn dydd Sadwrn gydag amrywiol arddangosfeydd a stondinau ar gael hefyd, gan gynnwys stondinau llyfrau.

Gwybodaeth bellach: Robin Evans (01286 669066 neu 07979767931) robin@carregmynach.freeserve.co.uk



Cynhelir Gŵyl Sŵn 2010, ar Hydref 21-23 mewn wahanol leoliadau ar draws y ddinas. Disgwylwch bandiau mawr a bandiau bach, dj's a arddangosfeydd celf, ffilmiau a lot fawr o hwyl a sbri. Eleni bydd mwy nag erioed o gerddoriaeth i'w glywed, lleoliadau newydd a hyd yn oed mwy o bobl yn y ddinas! Mae dros 50 o grŵpiau a'r DJ's gorau yng Nghymru i'w clywed yn yr ŵyl sydd wedi ei drefnu gan Huw Stephens a'i gyfeillion. Manylion llawn ar www.swnfest.com.

GWYL SŴN 2010
YN CYFLWNGO...

DÂN OED

ISPROUT ciwdod

NOSON O FANDIAU GWYCH I BOBL
RHWNG 14-18 OED

MILLENNIUM
MUSIC
HALL

GWENER HYDREF 22

7:00PM - 10:30PM
£6 O FLAEN LLAW
£8 AR Y DRWS

TOCYNNAU O FLAEN LLAW O
WWW.SADWRN.COM
NEU O SPILLERS RECORDS

BYDD DIM ALCOHOL /
DEWCH A ID I BROFI EICH OED

**DERWYDDON
DR GONZO**

CRASH.DISCO!

**NOS SADWRN BACH
BRÛCHIAU HIR**

Gwyl Sŵn yn Cyflwyno

**BRYN FÔN
AL LEWIS
GILDAS**

a dj's

The Globe
125 Albany Road, Caerdydd
Gwener Hydref 22

7:30pm
£10 o flaen llaw
Tocynnau ar gael o
www.sadwrn.com
The Globe (0291 2023 0130)
Tocynnau ar y drws

Max Gwyl Sŵn 2010 wedi ei ghirio ger